# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 569 · **Tachwedd 2025** · 70c

## Nawdd Newydd i'r Caban





Daeth newyddion da i'r Gerlan yn ddiweddar, wrth i'r Caban lwyddo i ddenu grantiau sylweddol a fydd yn gwella'r adeilad ei hun ac yn ehangu'r hyn y mae'n ei gynnig i'r gymuned leol.

Fel pentref a brofodd ei ddatblygiad ochr yn ochr â datblygiad diwydiant llechi'r ardal, addas iawn, felly, oedd derbyn grant gwerth £7,530 o gynllun LleCHI LleNI Cyngor Gwynedd, sydd wedi ei ariannu'n ehangach gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r cynllun yn rhan o gyfres o fuddsoddiadau sydd wedi deillio o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd a roddwyd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn 2021.

Bydd arian y grant yn caniatáu i Caban Gerlan wneud y canlynol:

- cynnal teithiau cerdded newydd yn yr ardal a chreu mapiau penodol i gydfynd â nhw
- cynnal gweithdai er mwyn creu map cymunedol a fydd yn annog pobl leol i grwydro'r ardal a dysgu am ei hanes
- rhoi cyfle i deuluoedd gymryd rhan mewn gweithdai celf llechi
- cynnal sesiynau hyfforddi hen grefftau lleol, megis gosod pileri llechi
- creu arddangosfa o luniau o'r diwydiant llechi a'i ddylanwad ar yr ardal

Yn ogystal â'r grant yma, derbyniodd y pwyllgor y newyddion yn ddiweddar bod nawdd pellach wedi ei ddyfarnu i'r Caban. Cyhoeddwyd bod grant gwerth £7,053.60 wedi ei ddyfarnu gan Gronfa Ffyniant Gogledd Cymru - Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF). Bydd y grant yn caniatáu i'r Caban wneud y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn prynu ffenestri a drysau newydd a gwella effeithiolrwydd ynni'r ganolfan gymunedol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu at y cynllun neu ddysgu mwy amdano, mae croeso i chi gysylltu gyda Caren Brown ar: carenelaine@hotmail.com neu 07789916166.

**GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL**

yng nghwmni

**CÔR MEIBION Y PENRHYN AC UNIGOLION LLEOL**

yn

**EGLWYS UNEDIG JERUSALEM, BETHESDA, NOS SUL, RHAGFYR 14eg, am 7 o'r gloch.**

Mynediad am ddim- gwneir casgliad at achos da.

**DEWCH YN LLU I BROFI GWIR YSTYR YR ŴYL!**

# Llais Ogwan

## Rhif 569
## Tachwedd 2025

### Panel Golygyddol
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

### Swyddogion
**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

### Trefnydd hysbysebion
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

### Ysgrifennydd
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

### Trysorydd
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

***Newyddion Rhagfyr i'w dderbyn erbyn 29 Tachwedd. Dyddiad cyhoeddi 18 Rhagfyr.***

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Rhodri Llŷr Evans.**

Y golygydd ym mis **Rhagfyr** fydd **Dewi A. Morgan,** Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT. 01248 602440 E-bost: dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 29 Tachwedd** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 18 Rhagfyr** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Tachwedd**

| | | |
|---|---|---|
| £30 | (93) | Karen Aston, Erw Las, Bethesda. |
| £20 | (185) | Dr. Dafydd Roberts, Tregarth. |
| £10 | (165) | Meirwen Williams, Gaerwen. |
| £5 | (70) | Vera Jones, Glan Ffrydlas, Bethesda. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10.00 | Er cof am Gwilym Llewelyn Williams, Maes Caradog, oddi wrth y teulu. |
| £2.30 | Kathy Thomas, Ciltrefnus |
| £20.00 | Carrie Rimes, Gwernydd |
| £2.30 | Urtha Felda |
| £20.00 | Dr. Dafydd Roberts, Tregarth. |

***Diolch yn fawr.***

## Dyddiadur y Dyffryn

### Tachwedd
22 Bore Coffi Clwb Camera. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
22 Kelly Lee Owens. Neuadd Ogwen.
24 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
25 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
26 Ffair Nadolig Bethesda. Neuadd Ogwen. 5.30 – 7.00.
27 Ffair Nadolig Ysgol Llanllechid. Yn yr Ysgol 5.30 – 7.00
28 Noson Elvis. Clwb Criced Bethesda am 7.00.
28 Mobius Loop. Neuadd Ogwen.

### Rhagfyr
01 Merched y Wawr Tregarth. Cinio Nadolig. Clwb Rygbi Bethesda.
02 Ffair Nadolig Capel Bethlehem Talybont. Festri am 6.30yh.
06 Bore Coffi Clwb Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
06 Darren Emerson. Neuadd Ogwen.
08 Clwb Coffi Talybont (Bwffe Nadolig). Festri Bethlehem am 11.30.
08 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
08 Cymdeithas Hanes D. Ogwen. Howard Huws. Festri Jerusalem am 7.00.
09 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
11 Y Gymdeithas. Dathlu'r Nadolig yng nghwmni'r aelodau. Festri Jerusalem am 7.00.
13 Bore Coffi Eglwys Glanogwen. Yn yr Eglwys. 10.00 – 12.00
14 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem, Bethesda am 7.00.
16 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
18 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
21 Naw Llith a Charol Traddodiadol. Eglwys St. Tegai, Llandygai am 5.00.
21 The Furrow Collective. Neuadd Ogwen.
24 Noswyl Nadolig. Eglwys St. Tegai, Llandygai am 11.00yh.

Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygái

**Diolchgarwch y Cynhaeaf Ysgol Llandygai**
Pleser pur oedd croesawu'r ysgol gyfan i'r eglwys i ddathlu Diolchgarwch ar fore Mercher Hydref 15fed. Cawsom wledd o ganu a chlywsom y neges bwysig i garu'n gilydd a bod yn barod i ddiolch am ein holl bendithion. Da iawn wir, blant!

**Croeso'n ôl**
Mae Geraint Gill, ein organydd yn ôl ar sedd yr organ yn dilyn absenoldeb hir dymor o'i waith ar sail iechyd. Braf gweld a chlywed ei fod yn teimlo'n well! Croeso'n ôl hefyd i Helen Gill, ei wraig, hithau wedi bod yn sâl am gyfnod hir.

**Llongyfarchiadau**
Mae Rachel Tombs yn ôl yn Tseina! Penodwyd i brifysgol Changsha, talaith Hunan i gynnal cyfres o wersi Saesneg ac i arholi. Efallai y cofiwch iddi gael yr union un profiad y llynedd. Edrychwn ymlaen i glywed hanes y daith. Bydd adref ar gyfer y Nadolig.

**Sul y Cofio Tachwedd 9fed 2025**
Erbyn cyhoeddi y rhifyn hwn o Llais Ogwan bydd cynulleidfa St Tegai wedi ymuno â chynulleidfa Sts Fair (Gelli) Tregarth i gymryd rhan yng ngwasanaeth y Cofio. Ar ddydd y Cadoediad, Tachwedd 11eg cenir clychau St Tegai i roi eu teyrnged unigryw i hogiau'r ardal ar ôl y 2 funud o dawelwch arferol am 11.00yb. Eleni bydd disgyblion hŷn yr ysgol eglwys, Ysgol Llandygai, yn arwain y gwasanaeth Cofio ac yn rhannu eu myfyrdod wrth giatiau'r eglwys. Diolch iddynt a diolch i'r athrawon am eu cymorth.

**Apêl Nadolig Clochdŷ St Tegai 2025**
A fuasech eto yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St Tegai i sicrhau waliau'r clochdŷ? Eleni canolbwyntiwyd ar atgyweirio'r clochdy. Fel y gwyddoch, rydym eisoes wedi atgyweirio'r to a'r drws ac rydym nawr yn troi ein sylw at ailbwyntio'r waliau.

Derbynir rhoddion at Apêl y Nadolig yn ddiolchgar fel arian parod ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i **Llandegai Church**) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys): **30-90-43 00098435**. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn ddiwedd Rhagfyr 2025 os gwelwch yn dda.


- Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719 annacoed@hotmail.com*
- Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandygai, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
- Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD 01248 354 369

**Trefniadau Rhagfyr a'r Nadolig: Rhaghysbyseb**
Tachwedd 30ain Sul Cyntaf yr Adfent Gwasanaeth Unedig Bro Ogwen am 10.00
Rhagfyr 14eg Gwasanaeth 11.00
Rhagfyr 21ain Gwasanaeth Traddodiadol Naw Llith a Charol yng ngolau cannwyll am 5 o'r gloch gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn
Rhagfyr 24ain Noswyl y Nadolig, Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts, SaraRoberts@churchinwales.org.uk.



**Diolchgarwch y Cynhaeaf 2025 yn Eglwys St Tegai gyda'n rhoddion i fanciau bwyd lleol.**




# Calendr Llais Ogwan 2026

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2026 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r Calendr.

Cysylltwch gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £5 yn y siopau hyn:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Tesco, Bethesda
- Post Rachub
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol. Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 / post@llaisogwan.com

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (8)

## Gan **Howard Huws**


Y tro diwethaf bu imi sôn am dylwyth teg a choblynnod: ond y mae ysbrydion eraill nad ydyn' nhw mor gyfeillgar.

Ers talwm roedd yna goets fawr yn cludo pobl rhwng Bangor a gwesty'r Roial yng Nghapel Curig, ac enw un o'r gyrwyr oedd Dafydd Roberts. Gyrru tua'r gwesty oedd o un noson pan gyrhaeddodd ben Llyn Ogwen, ac yno gwelodd ŵr bonheddig yn eistedd wrth fwrdd, yn chwarae cardiau ar ei ben ei hun. O weld y goets yn dod, safodd y gŵr, gan ei hatal hi, a gofyn i Dafydd am bas; a chytunodd hwnnw, gan wneud lle i'r dyn eistedd wrth ei ymyl ar y "bocs", sedd y gyrrwr. Roedd y gŵr wedi'i wisgo â mantell laes a'i gorchuddiai yn llwyr: ond o gyrraedd troad y gwesty, neidiodd y gŵr i lawr, a dyna pryd gwelodd Dafydd nad traed dyn oedd ganddo, ond traed yn fforchio i'r ewin, fel rhai llo.

Gwyddai Dafydd yn iawn, wedyn, pwy oedd o: a dywedodd, "Wel, taswn i'n gwybod mai'r Diafol oeddet ti, buasai'n rhaid iti gerdded, yn siŵr i ti." Nid atebodd y Diafol, dim ond cerdded yn ei flaen: ac yn sydyn, diflannodd i lawr drwy'r ffordd, fel petai'r ddaear wedi'i lyncu. Gadawyd aroglau brwmstan mawr ar ddillad Dafydd, ac roedd y ceffylau hefyd yn drewi ohono, ac wedi'u dychryn cymaint fel y gwrthodent fwyta.

Mae yna hanes tebyg arall am yr un man, bod gyrrwr y goets wedi gweld merch ifanc yn cerdded wrth ochor y ffordd, a chan dybio ei bod yn un o forwynion y gwesty, dyma fo'n arafu i'w chodi. Ond wrth iddo ddod gyferbyn â hi, aeth hithau ymlaen: ac ni waeth pa mor gyflym y gyrrai yntau'r goets ymlaen, ni allai ddal i fyny â hi, hyd nes cyrraedd mynwent Capel Curig. Yno diflanodd hi fel fflam, gan adael oglau brwmstan ar ei hôl. Aeth ceffylau'r goits yn wyllt gan ddychryn, gan garlamu i stablau'r Roial, a disgyn mewn llewyg yn chwys drostynt, a chan fethu â symud am ddiwrnodau, onid wythnosau.




A sôn am y Gŵr Drwg, ceir Padellau'r Cythraul, tyllau crynion yn y cerrig islaw'r Twll Du yng Nghwm Idwal. Maen nhw tua dwy neu dair troedfedd o led, ac wedi'u ffurfio gan gerrig a gro yn crafu'r garreg wrth chwyrlïo rownd a rownd yn y dŵr sy'n disgyn o'r Twll.

Mae chwedl y gwelid coets wedi aros ar y ffordd wrth waelod Tryfan, lle mae Penrhyn Melyn yn ymwthio allan i'r llyn. Roedd golau y tu mewn iddi, ond o ddynesu ati, byddai'n symud i ffwrdd yn gyflym iawn, ac nid oedd mo'i goddiweddyd. Cafodd y lle enw drwg, bod ysbryd yno, ac nid âi neb yno wedi iddi dywyllu. Ym mhen Llyn Ogwen ar noson olau leuad, tawel, mi glywch sŵn carlamu ar draws y llyn, ac ambell i besychiad. Yno, mewn lle o'r enw Buarth Bwgan, cafodd porthmon ei lofruddio, ac er i'r llofruddwyr ddianc, mae ysbryd y porthmon yn aros yno ar ei geffyl gwyn, yn carlamu ar hyd Llyn Ogwen. Mae Huw Derfel yn ôl ym 1866 yn cofnodi hanes a glywodd ar lafar gwlad, am lofruddio dau borthmon wrth Lyn Ogwen yng Ngorffennaf 1670, ac fel y dihangodd y llofruddion drosodd i gyfeiriad Nant Gwynant.

Enw arall ar Benrhyn Melyn ydi'r Foty (Foty Coed yr Ynys, yn llawn), a chredid cymaint fod bwgan yno, byddai pobl yn osgoi mynd ar gyfyl y lle, ddydd neu nos. Aeth un gŵr oedd wedi cael bolaid o gwrw heibio i'r fan, a phwy gyfarfu ag o ond dyn anferth yn gwisgo het silc (*top hat*).

"Nos dawch", meddai'r potiwr. Ond atebodd y dyn anferth ddim.

"*Gwd nait*", meddai'r yfwr wedyn: ond eto, dim ateb.

Felly dyma'r yfwr yn cynnig taro'r dyn anferth efo'i ffon, a dyma hwnnw'n diflannu drosodd i'r llyn efo olwyn o dân ar ei ôl.

Yr hanes oedd bod crochan aur wedi'i guddio ymysg cerrig y Foty, a bod y bwgan mawr yn ei warchod hyd nes y daw bugail Blaen Nant o hyd iddo.


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

**18 Carreg Felin**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5YB**

**☎ 01248 713 369**
**neu 07813 455653**



**Mark Davies**
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrslau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**

cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875

https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Gwasanaeth 34 blynedd i'r Ysgol**



Nerys yn ei swyddfa

Dymunir yn dda i Nerys Williams ar achlysur ei hymddeoliad o'i swydd fel Clerc/Rheolwr Busnes a Chyllid Ysgol Dyffryn Ogwen.

Gwasanaethodd Nerys am 34 o flynyddoedd, a bu'n cydweithio efo pedwar pennaeth yn eu tro – Irfon Hughes, Alun Llwyd, Dylan Davies, ac am gyfnod byr, Kelly Morgan, y pennaeth presennol sydd newydd ei phenodi.

Cafodd Nerys ei phenodi i'r swydd yn 1991, ac ni fu ond gair da iddi am ei heffeithiolrwydd gydol y cyfnod sylweddol y bu wrth y gwaith.




Yn 2011, derbyniodd Nerys gydnabyddiaeth genedlaethol am safon uchel ei gwaith a'i hymroddiad gan iddi ennill Gwobr Clerc Eithriadol Cymru. Cyflwynwyd iddi dlws a rhodd ariannol gan Leighton Andrews AC, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar y pryd, a hynny mewn seremoni arbennig yng Nghynhadledd Genedlaethol Clercod a Llywodraethwyr Ysgolion Cymru yn Llandrindod.

Bu gwasanaeth Nerys i'r ysgol yn gyfraniad neilltuol, a bu'r penaethiaid, y staff a'r llywodraethwyr yn tystio i'w natur hawddgar a'i threfnusrwydd, ac yn werthfawrogol o'i barn a'i pharodrwydd i gynorthwyo a mynd y filltir ychwanegol.

Mae Jill Oliver yn dilyn Nerys yn y swydd, a dymunir y gorau iddi.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn a Sharon a Dylan Parry, Yr Hen Ardd, Caerhun. Bu farw tad Sharon, Gordon Jones o Benygroes yn ddiweddar. Pob cydymdeimlad i chwi a'r teulu yn eich profedigaeth.

Ar 27 Hydref, yn ei chartref 56 Bro Infryn, bu farw Jennifer Edwards yn 54 oed. Merch y diweddar Ken a Myra. Cydymdeimlwn a'i chwaer a'r teulu i gyd.

**Bingo**

Cafwyd noson hwyliog yn y Bingo bach ar 3 Hydref, braf oedd gweld cynifer o blant yn bresennol ac yn ennill llawer o wobrau! Gwnaed elw o £170 tuag at y Ganolfan. Bydd y Bingo Nadolig, gyda pharti bach i ddilyn ar 28 Tachwedd, a bydd yr elw yn mynd at elusen lleol. Diolch o galon i nifer o ffrindiau sydd yn cyfrannu yn gyson tuag at y Bingo.

**Cylch Glasinfryn**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cylch ar 8 Hydref gyda nifer dda yn bresennol. Yn anffodus bu raid i Steve Ransome oedd i ddod atom i roi sgwrs ar Lyn Celanedd, Aberogwen ganslo ar y funud olaf. Mae ein dyled yn fawr i Ellie Evans a gamodd i'r bwlch ar fyr rybudd i arwain sesiwn o loga o'r Gadair a fwynhawyd yn fawr gan bawb.

Dywedodd Ellie y buasai yn fodlon cynnal sesiynau loga o'r Gadair yn y Ganolfan ar fore Mercher am £6 am 45 munud. Os oes unrhyw un a diddordeb gellir cysylltu ag Ellie ar ei ffôn 07860845723. Rhoddwyd y diolchiadau gan Jean.

Trafodwyd ble i fynd am ein cinio Dolig ar 10 Rhagfyr a fe benderfynnwyd ar Pant Du ym Mhenygroes, enwau i fewn mis nesaf.

Liz a Doreen oedd yn gyfrifol am y baned a'r Raffl.

**Y Ganolfan**

Hoffai Pwyllgor y Ganolfan ddiolch yn fawr i Gyngor Cymuned Pentir am ariannu'r gost o brynu Gwresogydd dŵr newydd yn y gegin a larymau tân yn y gegin a'r neuadd. Mae gennym Ganolfan Gymdeithasol fendigedig yng Nglasinfryn, yn gynnes a chyfleus, heb fod yn rhy fawr. Buasai yn braf petai mwy o gymdeithasau a grwpiau yn ei defnyddio. Mae'r rhent yn resymol tu hwnt! Os am fwy o fanylion cysylltwch efo Mair Griffiths fel yr uchod.

**Dosbarthiadau Gwneud Torchau Nadolig**

Cynhelir dosbarthiadau Gwneud Torchau Nadolig yn y Ganolfan gyda Rachel Williams o "Dark Side of the Bloom" ar y diwrnodau canlynol - 29 Tachwedd 12- 2yp, 5 a 12 Rhagfyr o 6-8yh, 13 a 20 Rhagfyr 12 - 2 yp. Os am fwy o fanylion cysylltwch efo Rachel. Rhif ffôn 07890 549910



# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr



Y tenor enwog, Rhys Meirion yn canu gyda'r Côr ar noson Cyngerdd y Carnifal Hyd 17.



Owain Arwel, Hannah Carleah a Rhys Meirion ar ôl perfformio efo'r côr yng Nghyngerdd y carnifal

**CYNGERDD Y CARNIFAL YN CODI'R TO**

Mae'r golofn hon yn llawn o luniau eto'r mis hwn gyda lluniau o'r cyngerdd mawr a gynhaliwyd yn yr Eglwys Unedig, Capel Jeriwsalem ar Nos Wener Hydref 17. Roedd y cyngerdd hwn yn un o'r goreuon a gafwyd ym Methesda ers blynyddoedd gyda'r tenor enwog, Rhys Meirion, yn serennu yng nghwmni Hannah Carleah o Benmaenmawr. Does dim angen cyflwyno Rhys Meirion i neb yng Nghymru ond mae Hannah yn enw newydd i lawer. Mae Hannah yn ferch i Douglas (Sol) Williams T1 ac wedi ennill y brif wobr yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Roedd ei llais clir a phersain wedi cyfareddu pawb yn y gynulleidfa a byddwn yn siwr o glywed mwy amdani yn y dyfodol.

Roedd Côr y Penrhyn yn rhoi ei wasanaeth am ddim i Bwyllgor Carnifal Bethesda ac mae aelodau'r côr yn dymuno'n dda i Garnifal 2026 gan obeithio bydd yr haul yn gwenu ar y diwrnod ac y ceir carnifal i'w gofio. Mae'n sicr bod llawer wedi gweld lluniau o'r trefnyddion ar Facebook a thalwyd y diolchiadau ar y noson gan Susan Roberts, un o'r trefnyddion.

Rhai sylwadau ar y noson:

*George Owen o Fangor yn dweud ei fod wedi mwynhau'r cyngerdd yn fawr ac yn sylweddoli beth gollodd o yn yr holl flynyddoedd roedd o wedi peidio mynd i gyngherddau.*

*Jên Evans a'i merch Linda wedi gwirioni ar lais Rhys Meirion ac yn dyheu am glywed ei lais cyfoethog eto.*

*Gwynfor a Fran Griffiths yn credu bod Capel Jeriwsalem yn 'theatr berffaith' ar gyfer noson o'r fath. Roedden nhw am ganmol sain Côr y Penrhyn ac wedi dotio at berfformiad Hannah a Rhys Meirion. "Da iawn Owain Arwel a'r cyfeilyddion am berfformiadau caboledig a gwych".*

*Susan Roberts, Bethesda yn dweud "Diolch i Gôr y Penrhyn, i Rhys Meirion, Hannah Carleah a phawb o'r gynulleidfa enfawr am eu cefnogaeth i Garnifal Bethesda. "Mae digwyddiad fel hwn yn dwad â phawb at ei gilydd ac yn ddathliad o gymdeithas glos a chefnogol yr ardal."*




Owain Arwel, Hannah Carleah, Rhys Meirion, Menna, (cyfeilydd Rhys Meirion) a Ross Craigmile, ( cyfeilydd Hannah Carleah a Chôr y Penrhyn} ar ddiwedd y cyngerdd gorau a gafwyd ym Methesda ers blynyddoedd. Roedd llawr isaf y capel yn llawn i'r ymylon ar y noson.



Tri tenor tremolo tyner yn aros i serennu yn y cyngerdd. Y Mri. William D. Parry Ysw; Y Bon. Henryd Jones a Mr. John Baston, yn aros gyda nifer o denoriaid eraill cyn mynd ar y llwyfan.






Dyma blac llechen a gyflwynwyd gan Wyn Thomas o Abertawe, i gofio am ei dad, y diweddar Ben Thomas o'r Gerlan, un o sefydlwyr Côr y Penrhyn. Mae'r plac i'w weld yn Neuadd Ogwen.

## GŴYL BIANO RHYNGWLADOL CAERNARFON

**Y côr yn cyflwyno gwobrau arbennig er cof am Menna Leyshon, cyn gyfeilydd Côr y Penrhyn.**



Gareth a Wil Parry yn cyflwyno'r wobr arbennig am gyfeilio offerynnol yng Ngŵyl Biano Rhyngwladol Caernarfon i Natalia Medina Levin.



Gareth Williams a Wil Parry yn cyflwyno Gwobr Menna Leyshon i Alphonso Sanchez Perez am y cyfeiliant lleisiol gorau.

## CYFLWYNO PLAC I GOFIO UN O'R RHAI SEFYDLODD Y CÔR YN EI FFURF BRESENNOL YN ÔL YN 1935.

### TRWMPEDWR PROFFESIYNOL


Bu Gwyn Owen o Dregarth yn perfformio yn Ottawa efo band Llarregub. Roedd y band hwnnw'n perfformio yn yr un ŵyl ag y bu Côr y Penrhyn ynddi. Wrth gwrs, mae Gwyn yn adnabyddus i'r côr ers ei ddyddiau ysgol yn Tryfan ac yn drwmpedwr rhagorol ers hynny. Rŵan, mae Gwyn yn gyd brif drwmpedwr yng Ngherddorfa Philharmonig y BBC ym Manceinion ac mae Gwilym Owen T2, ei dad, yn aelod o'r côr ers rhai blynyddoedd.



Gwyn Owen

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Dylan Williams o Lanfairfechan.**



**Be' ydy dy enw llawn?** Dylan Wyn Williams.
**Oed?** 67
**Gwaith:** Dreifio lori
**Lle wyt ti'n byw?** Byw yn Llanfairfechan
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** O Lanfairfechan
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Hapus!
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Blwyddyn a hanner.
**Pa lais wyt ti?** T2
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Ffrindiau yn y côr.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Moliannwn
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Bryn Terfel
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Na, dim barn neilltuol
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Nag oes, dim un arbennig, ond wedi mwynhau'r cwbl.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Na. Dwi'n hapus i'r pwyllgor wneud pob penderfyniad.

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Cydymdeimlo**

Rydym yn anfon cydymdeimlad gyda Maria a Gwynedd Jones a'r teulu, Tal y Cae, yn eu profedigaeth o golli mam Maria, sef Ellen Margaret Trowell, ar Fedi 26, oedd yn byw ym Mryngwran, Ynys Mon. Roedd hi hefyd yn chwaer i Lynda Owen, Tarinth, Tynlon, Tregarth.

Ar Hydref 12, daeth y newyddion trist am farwolaeth Terence William Jones, yng nghartref y Rhos, Malltraeth, ac yntau'n 77 oed. Arferai fyw yn Coedlys, Braich, Tregarth, cyn symud i Uxbridge Court ym Mangor. Roedd yn fab i'r diweddar Gwilym John a Mabel Jones ac yn frawd i'r diweddar Anna a Sarah, ac yn frawd yng nghyfraith i Tecwyn a'r diweddar Dafydd.

Bu'n gweithio i Gyngor Sir Gwynedd fel Prif Swyddog Safonau Masnachol ac yn Gyfarwyddwr Gwarchod Cyhoedd yn Ynys Mon. Cyn ymddeol ef oedd Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol Ynys Mon. Cydymdeimlwn gyda theulu Terence a'i holl ffrindiau.

## Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, Hydref 6, yn Festri Capel Shiloh Newydd, Tregarth, Cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mair Price o Gaernarfon. Croesawyd Mair gan lywydd y gangen, sef Carys Dafydd. Un o Ddinas Mawddwy ym Meirionnydd ydi Mair ond wedi byw yn Bethel ac yn awr yng Nghaernarfon ers nifer fawr o flynyddoedd a chyn ymddeol yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Friars, Bangor.

Testun ei sgwrs oedd 'Darllen Dotiau' gan gyfeirio at waith Louise Braille yn dyfeisio yr iaith Braille ar gyfer y deillion. Ganed tri ewythr i Mair yn ddall, a chafodd y tri eu hanfon yn ifanc i ysgol ar gyfer y deillion yn Lloegr ac yno i ddysgu'r iaith Braille. Er gwaethaf eu dallineb aeth y tri i weithio mewn gwahanol feysydd. Bu un ohonynt yn offeiriad uchel ei barch mewn Eglwys yn Lloegr, un arall yn deleffonydd mewn dinas yn Lloegr a'r llall adre i Ddinas Mawddwy i weithio ar y ffarm deuluol, Ty'n Braich, yng Nghwm Maesglasau, Dinas Mawddwy, ac i weithio ar lawysgrifau ar gyfer y deillion.

Noson arbennig iawn a phawb yn dotio at hanes y tri brawd dall. Gwnaed ffilm yn y chwedegau gan John Roberts Williams am y tri brawd, ffilm hynod o ddiddorol a ddenodd ddiddordeb ym mywyd y brodyr.

Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno yn y gangen.

Bydd y cinio Nadolig eleni yng Nghlwb Rygbi Bethesda ar Ragfyr 1af. Am fwy o fanylion cysyllter gyda ysgrifennydd y gangen Janet Davies ar 07762353793.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Shiwan a Phil Holland, Y Gornel, Allt Cerrig Llwydion, Tregarth ar enedigaeth Philip John Gould Holland ar Fedi 21. Wyr Bach newydd i Elinor a'r diweddar Phil Holland, Perthi, Tregarth a John a Margaret Gould, Porthaethwy.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Owena a Les, Ffordd Tan Rhiw, am ddod yn nain a taid i Elia Morgan, merch fach i'w mab, Ryan a'i bartner Ella New o Gerlan.

Llongyfarchiadau i Julia Hughes, gwraig Gwyn Hughes, Ffordd Tan Rhiw, ar gyrraedd penblwydd arbennig. Braf oedd cael teulu a ffrindiau yn y Clwb Rygbi i ddathlu'r achlysur.

**Ysbyty**

Anfonwn ein cofion at Beryl Brown, Ffordd Tanrhiw sydd yn yr ysbyty.

## Capel Shiloh Newydd

Yr oedfa am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Tachwedd 23 – Dr Ian Morris
Tachwedd 30 – Hugh Pritchard, Llangefni
Rhagfyr 7 – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Rhagfyr 14 – Eurfryn Davies, Llandegfan
Rhagfyr 21 – Am 2 o'r gloch. Oedfa'r Nadolig
Rhagfyr 21 – Am 7 o'r gloch Cyngerdd Nadolig Glanaethwy – 'Dawel Nos'

Mae profedigaeth wedi dod i ran un o aelodau'r capel sef Gwen Jones, Bangor. Bu farw ei brawd yng nghyfraith, Robert Thomas Jones, brawd i Dafydd ei phriod, ar Fedi 21, a'i gartref yn Llangefni. Pob cydymdeimlad Gwen a Dafydd ac i'r holl deulu.

**Drws Agored**

Cofiwch fod Drws Shiloh ar agor bob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch am baned a sgwrs.

Mae aelodau ffyddlon bore Gwener wedi anfon arian, sef £100 i gronfa Canser Macmillan, £100 ar gyfer Banc Bwyd Hwb Ogwen a £50 ychwanegol i Gylch Meithrin Tregarth. Diolch i bawb am eu cyfraniad at y baned bob bore Gwener.

Bydd yr aelodau yn casglu bwyd ar gyfer y Banc Bwyd lleol o hyn tan y Nadolig ac yn ychwanegol yn derbyn anrhegion Nadolig i blant a ieuenctid ar gyfer Cronfa Gweithredu dros Blant sydd a'i bencadlys yn Wrecsam. Gofynir i chi os am gyfrannu i ddod â nhw i Gwenda erbyn Dydd Sul, Tachwedd 30. Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd.

**Blaenor Newydd**

Yng Nghyfarfod Blynyddol y capel ar Hydref 14 gwahoddwyd Valerie Ellis Jones, Glan Gors, i fod y flaenor yn Shiloh, a llawenydd oedd iddi dderbyn y gwahoddiad. Llongyfarchiadau Val a diolch am dy ffyddlondeb i'r capel.


Ogwen
Adferiad Corfforol

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE



Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

# YSGOL TREGARTH

### Ymweliad PC Griffiths a PC Claudia

Diolch i PC Griffiths a PC Claudia am alw draw yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd pob dosbarth gyfle i glywed am y gwaith maent yn wneud yn ein cymuned, cael eistedd yn y car a hyd yn oed trio'r cyffion!

### Taith gerdded

Bu dosbarth Elidir Fawr ac yr Aran am dro o gwmpas y pentref yn ddiweddar er mwyn chwilio am arwyddion yr hydref. Roedd yn braf cael crwydro ar hyd Lôn Las Ogwen gan sylwi ar liwiau hyfryd y dail ar y coed.



### Diwrnod Shwmae Su'mae

Daeth pawb i'r ysgol wedi eu gwisgo mewn coch, gwyn neu wyrdd i ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae. Dyma gyfle i atgoffa ein gilydd o bwysigrwydd cychwyn pob sgwrs yn Gymraeg.

### Gwasanaeth Diolchgarwch

Cafodd yr ysgol gyfle i gynnal gwasanaeth diolchgarwch yn Eglwys y Gelli yn ddiweddar. Roedd yn braf cael mynd i'r adeilad hyfryd a



gwrando ar y plant yn canu ac adrodd. Diolch i'r Parch Sara a Rosemary am y croeso cynnes ac i'r plant am gymryd rhan mor dda yn ystod y gwasanaeth.

## Banc Bwyd Bethesda

Gan ei bod yn dymor diolchgarwch, bu'r cyngor ysgol wrthi'n brysur yn trefnu casgliad tuag at fanc bwyd Bethesda. Diolch o galon i bawb gyfranodd gymaint o fwyd ac i Partneriaeth Ogwen am dderbyn y bwyd gennym.





### Disgo'r Hydref

Roedd pawb wedi mwynhau ymuno yn y disgo hydref ar ddiwedd yr hanner tymor. Diolch i'r gymdeithas rhieni ac athrawon am drefnu'r digwyddiad. Mae'r gymdeithas bob amser yn croesawu aelodau newydd a fyddai'n hoffi helpu mewn unrhyw ffordd. Cysylltwch â'r ysgol os oes gennych ddiddordeb ymuno neu helpu.


**JOHN ROBERTS**
**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995



**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# CHWILAIR



## Testunau'r Chwilair dros y blynyddoedd

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg TESTUN SYDD WEDI YMDDANGOS YN Y CHWILAIR TROS Y BLYNYDDOEDD i'w darganfod. Mae rhai o'r atebion yn cynnwys mwy nag un gair, tra bod y gweddill yn un gair yn unig. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn <u>**un**</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Tachwedd. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.** Ymddiheuriadau i Heulwen Roberts, am fy mod wedi gadael ei henw allan o'r rhai a gafodd yr atebion cywir i Chwilair Medi.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | B | R | E | N | H | I | N | O | E | D | D | I | M | G | V |
| H | F | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | A | D | D | N | A | P | A | U | Q |
| U | F | **N** | **E** | **W** | **G** | **O** | **N** | **Y** | **R** | **F** | **F** | **Y** | **D** | **S** | **E** | **N** | **A** | **H** | S |
| E | E | T | R | E | F | I | L | L | O | E | G | R | O | F | P | R | P | Y | Q |
| N | R | Z | G | R | H | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | O | A | S | Z | U |
| G | M | T | F | D | X | U | P | W | R | H | C | Q | D | H | N | W | E | D | H |
| L | Y | O | Y | E | E | G | E | O | M | D | H | D | E | P | T | T | T | D | C |
| Y | D | B | B | C | U | U | J | P | D | L | Y | T | M | I | Y | V | V | E | D |
| N | D | C | B | B | F | R | F | E | O | E | G | J | V | I | D | I | R | N | R |
| I | P | X | I | M | H | T | O | T | F | O | S | K | O | P | D | W | R | Y | C |
| O | E | M | K | C | B | D | O | H | R | C | X | V | R | Y | H | S | T | W | M |
| N | N | R | E | F | Y | Y | T | J | D | Z | H | B | C | W | O | S | C | G | R |
| A | R | I | X | R | N | I | I | L | X | J | J | M | B | W | T | E | U | D | X |
| M | H | D | T | X | E | K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | A | D | E |
| R | Y | S | Z | W | Q | R | O | C | T | D | G | W | S | L | Z | E | D | Y | B |
| E | N | A | G | J | K | J | C | L | N | L | R | V | O | G | J | P | O | N | W |
| P | G | E | A | R | M | Y | C | R | Y | W | S | I | E | F | Y | D | L | O | G |
| S | O | W | J | J | Q | D | I | A | R | H | E | B | I | O | N | U | B | F | L |
| F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | A | T |

**Dyma atebion Chwilair Hydref**: **Bethesda**, Bethesda; **Brynmawr**, Betws-y-Coed; **Chwarel Goch**, Tregarth; **Ebenezer**, Tywyn; **Engedi**, Bae Colwyn; **Glan Aber**, Llanuwchllyn Bala; **Horeb**, Bangor; **Libanus**, Deiniolen; **Llandderfel**, Llandderfel; **Moriah**, Caernarfon; **Mynydd Seion**, Gornant; **Salem**, Llandeilo.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir**: Judith Hughes, Llangoed; Alan Davies, Porthaethwy; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwen Davies, Bethesda; John Roberts, Y Ffôr; Rosemary Williams, Tregarth; Gwen Roberts, Rhosmeirch; Eirwen Owen, Bethesda; Barbara Anne Conlan, Bethesda; Heulwen Roberts, Bethesda; Doris Shaw, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Huw Williams, Bethesda.

**Enillydd Hydref oedd**: Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon. LL54 7HN.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

SAMARIAID

Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu

Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl

7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau cynhesaf i Ron Williams, 68 Bro Emrys, fu'n dathlu ei benblwydd yn 90 ar Hydref 26ain. Gobeithio iti gael diwrnod arbennig, Ron, yng nghwmni dy deulu a'th ffrindiau sydd â meddwl mor fawr ohonot. Dymunwn iechyd da a phob cysur i ti am flynyddoedd i ddod.

**Pencampwr am y pedwerydd tro!**
Llongyfarchiadau enfawr i Mitchel Jones, 80 Bro Emrys, aeth i Ddenmarc i baffio dros Gymru, a ddaeth yn ôl efo Medal Aur am y pedwerydd tro yn olynnol! Mae hynny'n gamp anhygoel. Aelod disglair o Glwb Paffio Llandudno ydi Mitchel ac, ar ben hynny, mae o'n lanc ifanc cwrtais a chyfeillgar sy'n gredit i'w deulu. Pob llwyddiant iti i'r dyfodol, Mitchel. Gwyddom mor galed rwyt yn hyfforddi i berffeithio dy grefft.

**Newyddion da!**
Mae Wyn Bowen-Harries, 1 Tyddyn Cottages, wedi ennill cefnogaeth Cyngor y Celfyddydau i lwyfannu ei ddrama 'D.N.A' a mynd â hi ar daith; o bosibl yn ystod y Gwanwyn. Mae hyn yn newyddion ardderchog i Wyn a Gwen. Llongyfarchwn Wyn yn gynnes ar ei lwyddiant, ac edrychwn ymlaen at weld y ddrama newydd pan ddaw i'r cyffiniau.

**Brysia wella!**
Anfonwn ddymuniadau gorau am wellhad buan at Maggie (Baston) 56 Bro Emrys, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae hi adra rwan ac yn cryfhau o dan law ofalgar John. Yn ôl y sôn, mae Maggie wrthi'n rhoi Cwrs Trochi mewn gwaith tŷ iddo, nes bydd hi wedi gwella'n llwyr.

Ar yr un pryd, cofiwn am bawb o'r ardal sydd o dan law'r meddyg, neu'n mynd yn ôl a blaen i'r ysbyty, yn enwedig rwan ar drothwy'r Gaeaf. Dymunwn yn dda i chi.

**Arian 'Llais Ogwan'**
Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu tâl blynyddol imi. Dim ond un neu ddau sydd gen i ar ôl erbyn hyn.

Mae'r Calendrau wedi cyrraedd Talybont mewn da bryd; 'fydd dim rhaid i chi fynd i'r siopau i chwilio amdanynt. Pum punt yr un ydi'r pris eleni ac, yn wahanol i bob dim arall brynwch chi'r dyddiau yma, yr un maint â chalendrau'r llynedd ydyn nhw. Diolch o galon i'm cwsmeriaid ffyddlon, a ffrindiau o'r ardal, sydd wedi archebu'n hael iawn gen i eisoes.

### Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

Tachwedd 23: Mr. Richard Parry Jones.
Tachwedd 30: Parchg. Dafydd Job.
Rhagfyr 07: Parchg. Eric Jones.
Rhagfyr 14: Oedfa Nadolig.
Rhagfyr 21: Parchg. John Pritchard.
Rhagfyr 28: Parchg. R. O. Jones.

*Croeso cynnes i bawb.*

**Bwrlwm Bethlehem**
Mae aelodau'r Bwrlwm yn mwynhau cyfarfod bod yn ail ddydd Iau am 2 o'r gloch. Mae pob croeso i unrhyw un ymuno â ni am banad a sgwrs.

Ar Sadwrn, 11 Hydref, aeth y criw ar wibdaith i 'r farchnad yn Yr Wyddgrug gan alw yn siop fawr Tweed Mill ar y ffordd gartref. Pawb wedi mwynhau.

**Y Diolchgarwch**
Hyfryd oedd gweld y ffyddloniaid oll yn cymryd rhan yn yr oedfa Ddiolchgarwch a drefnwyd gan Barbara Jones ar brynhawn Sul, 19 Hydref. Mwynhaodd y gynulleidfa baned a chacen yn y festri cyn troi am adre'.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd cymaint o nwyddau ac arian at y Banc Bwyd ym Methesda.

**Ffair Nadolig**
Edrychwn ymlaen at ein Ffair Nadolig flynyddol a gynhelir eleni am 6.30 ar nos Fawrth, 2 Rhagfyr.


**Ffrindia' Newydd**

**Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli ystyrlon?**

Oes gennych chi awr neu ddwy i'w sbario bob wythnos i wneud gwir wahaniaeth yn eich cymuned?

Mae prosiect cyfeillio *Ffrindia' Newydd* eisiau gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi unigolion dros 50 oed sydd angen cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:
beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
01286 672 626 | www.mantellgwynedd.com

Neu sganiwch y cod QR i gofrestru:




## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda**
**Nos Lun, 8 Rhagfyr**
**7.00 - Howard Huws**
**Cloddio am Fetalau yn Nyffryn Ogwen**

**Wyneb yn wyneb:**
**Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom:**
**Cofrestrwch efo esme@ogwen.org.**
**Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch**
**dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.**

**FFI AM Y CWRS**
Oedolion £10.00. Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol – £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen'
drwy: BACS: 40-16-02 41386212,
neu gydag arian parod ar y noson

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

## Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Dathlu'n yr Ardd Fawr**
Mae 'na dipyn o ddathlu wedi bod yn yr Ardd Fawr yn ddiweddar. Dim yn unig bod Ceri Ogwen wedi troi'n 40 ond mae hi hefyd wedi dyweddïo efo Martin Hughes. Pob dymuniad da i chi'ch dau.

**Symud tŷ**
Croeso mawr i Jo Davies, Lloyd Eardley a Cynan Gwyn i Ffordd Gerlan. Gobeithio y byddwch chi'ch tri yn hapus yn eich cartref newydd.

**Diolch**
Roedd Amlosgfa Bangor yn llawn i'r ymylon ar y 13eg o Hydref wrth i ni ffarwelio gydag un o bobl arbennig Gerlan, Alun Ogwen Thomas.

Hoffai Yvonne, Kevin, Alan a'u teuluoedd ddiolch i bawb am eu geiriau o gysur, cardiau a rhoddion at Ward Alaw er cof am eu tad. Rhwng y rhoddion a gwerthiant ei ffyn, mae 'na dros £5,000 wedi ei gasglu i Ward Alaw.

Bydd bwlch mawr ar ei ôl yma yn y pentref a byddwn yn ei golli'n fawr.

**Babi newydd**
Croeso i'r byd ac i Gerlan Nansi Alys! Babi bach newydd i Ben a Megan Eldon, Ffordd Gerlan a chwaer fach i Tudur. Dan ni'n falch iawn bod chi adref yn ddiogel o Ysbyty Gwynedd. Mae'r teulu i gyd wedi gwirioni.

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Cai Shea, Fordd Gerlan sydd wedi graddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Astudiaethau Cyfryngau. Mae'r teulu'n falch iawn ohonot, Cai.

**Cofion**
Gyrrwn ein cofion at Vera Hughes, Ciltrefnus sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Gobeithio eich bod yn cryfhau, Vera, ac y cewch ddod adra'n fuan.

**Iaith ar Daith**
Os fuoch chi'n gwylio S4C nos Sul y 19eg o Hydref, beryg iawn eich bod wedi gweld Lisa Jên o Gwernydd ar y rhaglen Iaith ar Daith. Cafodd Lisa fentora Callum Scott Howells wrth iddo fynd ar daith i gryfhau ac adeiladu ei hyder wrth siarad Cymraeg. Er bod Lisa a Callum wedi ein diddanu ar y daith, mae'n rhaid i mi ddweud mai Martin, gŵr Lisa, oedd seren y sioe wrth iddo egluro sut y bu iddo ddysgu Cymraeg trwy gydgysylltiad geiriau (word association). Gwyliwch yn ôl ar BBC iPlayer neu Clic i chi gael mwynhau rhaglen hwyliog iawn.

### Caban Gerlan

**Caffi Trwsio**
Roedd caffi trwsio mis Hydref ychydig yn wahanol i'r rhai arferol. Penderfynwyd canolbwyntio ar sgiliau gwnïo yn y Caffi Trwsio yma. Gyda help Ket, Ruth a Robyn o Bartneriaeth Ogwen cafwyd gweithdy gwnïo hynod lwyddiannus. Daeth rhai a'u peiriannau gwnïo eu hunain a chael cyngor ar sut i'w defnyddio. Cawsom fenthyg tua 4 peiriant gwnïo gan Bartneriaeth Ogwen ac felly toedd peidio cael peiriant eich hun ddim yn broblem. Aeth sawl un adref efo bag newydd roedden nhw wedi ei greu a phawb yn teimlo bod eu hyder a'u diddordeb wedi cynyddu. Roedd pawb yno'n awyddus i gael gweithdy tebyg eto a hyd yn oed cynnal sesiwn misol er mwyn cael sgwrsio, creu a gwnïo. Felly, os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwnïo neu eisiau syniadau am sut i gychwyn gwnïo, gwyliwch am fwy o fanylion am ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Bydd y Caffi Trwsio nesaf yn cael ei gynnal Dydd Sul y 30ain o Dachwedd rhwng 11 ac 1. Croeso i unrhyw un alw draw i gael paned a dod ag unrhyw beth sydd gennych sydd angen ei drwsio!

**Teleofal Cyngor Gwynedd**



Poeni be fyddai'n digwydd pe bai chi neu aelod o'r teulu angen galw am gymorth a methu cyrraedd y ffôn?

Mae'r gwasanaeth yn cynnig technoleg fodern a dibynadwy i helpu chi reoli risgiau o amgylch y cartref a thu hwnt. Mae'n cynnig tawelwch meddwl 24 awr y dydd tra'n hybu annibyniaeth a helpu eich cadw'n ddiogel.

**Sganiwch yma i gofrestru**

www.gwynedd.llyw.cymru/teleofal
teleofal@gwynedd.llyw.cymru
01286 682842
Cyngor Gwynedd

# Erthygl Wythnos Cyfeillio

**Mae Mantell Gwynedd yn ymuno ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am fanteision cyfeillio a chysylltu.**

*Weithiau, dim ond sgwrs gyfeillgar dros baned gyda chyfaill sy'n gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i ddiwrnod rhywun.*

Mae Mantell Gwynedd eleni'n cefnogi Wythnos Cyfeillio sydd yn ymgyrch flynyddol i ddathlu cyfeillio ac amlinellu pŵer cysylltiad cymdeithasol wrth leihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Yn ddiweddar, mae Mantell Gwynedd wedi lansio cynllun cyfeillio o'r enw Ffrindia' Newydd, sydd yn recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr i fynd ati i gyfeillio a chadw cwmni i unigolion sy'n profi unigrwydd yn ardal Arfon yng Ngwynedd.

Mae cyfeillio yn berthynas a gefnogir gan sefydliad i alluogi cysylltiadau ystyrlon. Ar gyfer cyfeillio un i un, mae cyfaill gwirfoddol yn cael ei baru ag unigolyn, a byddent yn darparu cyfeillio dros y ffôn, ymweliadau cartref neu'n gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd yn eu cymuned. Nod y cynllun yw lleihau'r teimlad o unigrwydd trwy gwmnïaeth a hybu hunan hyder ac annibyniaeth.

Mae'r amser a phresenoldeb gall wirfoddolwyr gynnig yn dod â chefnogaeth a chysur i bobl sydd ei angen fwyaf. Gall cymorth gan gyfaill gwirfoddol helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, gan roi hwb a hyder i bobl deimlo yn rhan o'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr yn cael gymaint o fudd allan o'r berthynas gyfeillio hefyd. Gall o leiaf awr yr wythnos rhoi pwrpas newydd i wirfoddolwyr a rhoi cyfle iddyn nhw wneud gwahaniaeth fawr yn eu cymunedau.

Yn ystod Wythnos Cyfeillio, rhwng 1af a'r 7fed o Dachwedd, mae cymunedau ledled y DU a thu hwnt yn ymgynnull ar-lein ac yn bersonol i godi ymwybyddiaeth o gyfeillio a dathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr cyfeillio a'r staff sy'n eu cefnogi.

Dywedodd Cat Major, Swyddog Cyfathrebu gyda Befriending Networks:

"Mewn cyfnod pan fo argyfwng costau byw yn cyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gall cyfeillio fod fel taflu rhaff i rywun i'w helpu i adeiladu cysylltiadau ystyrlon a gwella lles. Rydym wrth ein bodd y gall Wythnos Cyfeillio ddarparu llwyfan i gydnabod angerdd ac ymroddiad timau cyfeillio a rhannu effaith eu gwaith."

Mae pob sgwrs a phob cysylltiad yn cyfrif, boed hynny dros y ffôn, yn y cartref, mewn caffi, neu ar dro bach o gwmpas y pentref.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli fel cyfaill gwirfoddol gyda chynllun Ffrindia' Newydd, neu os ydych yn adnabod rhywun allai elwa o dderbyn cefnogaeth trwy'r cynllun, dewch i gysylltiad gyda ni. Ewch i wefan Mantell Gwynedd am fwy o wybodaeth am y cynllun www.mantellgwynedd.com, neu ffoniwch am sgwrs 01286 672 626, heb anghofio wrth am yr opsiwn i ddod draw i'n swyddfa yn 25 Y Bont Bridd, Caernarfon, LL55 1AB.

# Natur o'n Cwmpas



## Elyrch Aberogwen

Golygfa drawiadol bob amser yw alarch yn llithro'n braf drwy'r dŵr. Ysbrydolwyd sawl darn o farddoniaeth gan wynder ei blu a'i symud gosgeiddig, ac mae'r darlun sy'n y cwpled syml a chofiadwy hwn yn dal y profiad hyfryd:

Dacw alarch ar y llyn
Yn ei gwch o sidan gwyn.

Bardd arall a swynwyd gan yr alarch oedd Edward Harker (Isnant, 1866-1969) o Nant Bwlch yr Heyrn uwchlaw Llanrwst. Byddai'n gwylio'r elyrch ar lynnoedd ac ar afon Conwy, a difyr yw eu gweld heddiw yn y pwll islaw'r Bont Fawr. Dyma englyn Isnant i'r alarch:

Ail i long ar loyw lyn, – neu lili
Oleulan y dyffryn;
Ei wedd sydd yn berffaith wyn,
A wnaed eira'n aderyn?

Nid oes rhaid mynd ymhellach nag Aberogwen i gael gweld yr aderyn hardd hwn oherwydd yno mae haid o elyrch dof (*Cygnus olor; mute swan*). Cafodd yr alarch dof ei enw oherwydd i'r adar hyn drwy'r canrifoedd ddod yn ddof yn yr ystyr eu bod wedi ymgynefino mewn parciau preifat stadau tirfeddianwyr (a pharciau cyhoeddus yn ddiweddarach) sydd â llyn, camlas neu ran o afon efo pyllau cymharol fawr a llonydd. Bydd haid yn newid lleoliad bob hyn a hyn, yn bennaf yn ôl yr hinawdd ac argaeledd gwahanol fathau o fwyd yn eu tymor.

Ceir dau fath arall o alarch gwyn yng Nghymru, sef alarch Bewick ac alarch y gogledd, ond dim ond yr alarch dof sy'n nythu yma. Gellir adnabod yr alarch dof oddi wrth ei wddw ar ffurf S; ei adenydd wedi eu codi dros ei gefn pan fo'n nofio; y darn du o gwmpas ei ffroenau; a'i big oren efo du o dani a lwmpyn du ar ei blaen. Mae'n nofio efo'i big at i lawr, ac yn hedfan efo'i wddw'n ymestyn allan yn syth, a churiadau'i adenydd yn araf a swnllyd. Gall hedfan ar gyflymder o 55 milltir yr awr. O ran cynhaliaeth, bydd elyrch dof yn bwyta llystyfiant dŵr yn ogystal â phori caeau, ac ar dro bydd trychfilod, pysgod mân a llyffantod yn rhan o'u harlwy.

Ar lanw, bydd yr haid a ddaw i Aberogwen yn nofio'n agos at y lan – hyd at hanner cant ohonynt yn aml – ac mae'r guddfan yng ngwarchodfa natur Llyn Celanedd sydd ag un ochr yn wynebu afon Menai yn lle da i'w gwylio drwy sbeinglas. Yno weithiau bydd alarch du yn rhan o'r haid, a thynnwyd y llun uchod ychydig wythnosau'n ôl. Dyma rywogaeth sydd â hanes diddorol. Daeth yr alarch du yn wreiddiol o Awstralia, a hwn yw aderyn symbolaidd talaith Gorllewin Awstralia. Cafodd yr elyrch duon eu cyflwyno i wledydd Prydain fel adar 'addurniadol' i'w cadw fel nodwedd wahanol ar stadau tirfeddianwyr. Llwyddodd nifer i ddianc ac ymsefydlu yn yr un mathau o gynefinoedd ag sydd gan elyrch eraill.

Gwelir ambell bâr o elyrch dof yn nofio o dan Bont Aberogwen i fyny Llyn Llanw, pwll olaf afon Ogwen. Mae'r bont, sydd o haearn gwaith Pen-y-darren, Merthyr Tudful, yn rhan o lwybr yr arfordir sydd bellach yn mynd i Abercegin, ac yn lleoliad addas i'w gwylio. Rai blynyddoedd yn ôl, roedd gan bâr o elyrch dof nyth ar ochr y penrhyn i'r pwll hwn, yr ochr isaf i'r bont. Bu'n gyfle i werthfawrogi pa mor anferth yw ei nyth – hyd at dair medr o ddiamedr – yn bentwr trwchus uchel fel llwyfan, wedi ei adeiladu o frigau, mân ganghennau a choesynnau planhigion dŵr. Bydd yn dodwy rhwng 4 a 10 wy, ac yn gori am 36 diwrnod. Llwyd/llwydfelyn yw lliw plu'r cywion, ac ni fyddant yn cael plu gwynion tan y byddant yn flwydd oed er iddynt ddod i lawn dwf o fewn tua thri mis.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ysbyty**
Bu Brenda Hughes, Rhes Gordon, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod mis Hydref. Da deall ei bod gartref erbyn hyn ac yn gwella.

**Pen-blwydd hapus**
Dyna a ddymunwn i Mrs Nell Williams, Ffordd Carneddi (Nell Tangraig.) Dathlodd ei phenblwydd yn 99 oed ar Dachwedd 7fed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu.

**Profedigaeth**
Ar Hydref 4ydd hn ei chartref ym Mryntirion bu farw Winifred Irene Owens yn 91 oed, mam annwyl i Bethan ac Elen a nain hoffus i Becca, Joshua, Alex a Sophie. Bu'r angladd dydd Mercher, Tachwedd 5ed yn amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu. Cydymdeimlwn hefyd â Delyth ac Andrew Evans a'r teulu Ffordd Bangor ar golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl iawn sef y Margaret Ann Roberts, Tan y Garth Rachub a fu farw ar Hydref 9fed.

**Llyfrgell Bethesda**
Mae llyfrgellydd newydd wedi cychwyn ar ei swydd yn y llyfrgell. Bydd Elin Mair Jones o Ffordd Coedmor yn falch iawn i'ch croesawu. Cofiwch bod modd gwneud mwy na benthyg llyfrau yn y llyfrgell. Mae'n lle ardderchog i ddod â'r plant a digon iddynt ei wneud. Cewch ddefnyddio cyfrifiaduron a defnyddio peiriant argraffu. Mae llyfrgell Petha wedi ei lleoli yma ac wrth gwrs pob copi o Llais Ogwan ar gael i chi bori trwyddynt. Pob hwyl i Elin yn y swydd.

**Diolch**
Dymuna'r cynghorwyr ddatgan eu diolch i'r clerc Hannah Mefin sydd wedi ein gadael ddiwedd Hydref. Byr fu ei thymor gyda'r cyngor, er hynny bu yn hynod brysur ac mae llawer o waith wedi ei gyflawni yn ystod y misoedd diwethaf. Pob hwyl i ti a'r teulu Hannah, mae'n debygol iawn y byddwn yn dy weld o gwmpas.

Yr un ydy'r croeso i'r clerc newydd Sara Jones.

**Cymdeithas Capel Jerusalem**
Croesawodd Neville y 15 aelod a 2 ymwelwr oedd yn bresennol,a hefyd ein siaradwr gwadd, Ben Stammers, y naturiaethwr a ddaeth atom i'n haddysgu gyda sleidiau ac ambell i gân aderyn sydd i'w gweld a'u clywed yn Nyffryn Ogwen. Noson ddiddorol dros ben.



**Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Sian Rhys o Fethesda a Bleddyn Davies o Gaerfyrddin ar eu priodas ar 2 Hydref yng Nghaerdydd. Cariad mawr a phob dymuniad da oddi wrth Mam, Dad, Nain, Claire, Ioan, Steffan, a'r teulu i gyd.

**Sefydliad y Merched Carneddi**
Cawsom gyfarfod hwyliog iawn ar ddechrau mis Hydref yn festri Jerusalem. Gwahoddwyd SyM Brynrefail a Llanrug atom i gael gêm o Boccia.

Cafwyd noson dda iawn a Merched Brynrefail a Llanrug oedd yn fuddugol, 18-13 mewn gêm gyfeillgar.

Roedd SyM Carneddi wedi paratoi lluniaeth ysgafn i bawb. Roedd yn noson llwyddiannus ac yn braf cyfarfod ffrindiau newydd.

Mae'n cyfarfod nesaf a'r ddechrau mis Tachwedd lle byddem yn croesawu Glesni i wneud cardiau Nadolig.

Mis Rhagfyr byddem yn dathlu y Nadolig drwy gael cinio yn y clwb Rygbi. Ni fydd cyfarfod ym mis Ionawr a byddem yn cyfarfod nesaf ar y 5 ed o Chwefror am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.



***Newyddion Rhagfyr i'w dderbyn erbyn 29 Tachwedd. Dyddiad cyhoeddi 18 Rhagfyr.***

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

ELUSEN OGWEN
Os... ydych chi'n aelod o grŵp yn Nhal-y-Bont, Llandygái, Bethesda, Tregarth, Rhiwlas, Mynydd Llandygái neu'r cyffiniau
ac hoffech chi gael grant o hyd at £3,000 ar gyfer prosiect
Yna... sganiwch y cod QR i fynd i'n gwefan i weld
➢ a yw eich prosiect yn gymwys
➢ a sut i gyflwyno cais
www.elusenogwen.cymru / elusenogwen@gmail.com

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn hollbwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop

**Clwb Cant**
Mae'n ddechrau blwyddyn arall ar y Clwb Cant.

Mae pob cyfrif ar gyfer Eglwys Glanogwen bellach dan un cyfrif cyffredinol.
Os oes rhai'n cael trafferth i drosglwyddo i'r cyfrif banc – y manylion ydy: 'Glanogwen Christchurch General Account' a'r rhifau perthnasol yw: 51-61-28; 06306284
(Mae'r banciau yn gwrthod derbyn y fersiwn Gymraeg!)

Fel arall, gellir anfon yr arian, gyda enw a rhif ffon, trwy law unrhyw un o aelodau'r eglwys. Os oes unrhyw drafferth, rhowch ganiad i Alex ar 01248 600454 neu ebost i Emily ar Clwbcantglanogwen@gmail.com a mi wnawn drefnu i'w nôl.

Ymddiheurwn am unrhyw drafferthion, a diolch o galon i Alex ac Emily am eu gwaith ac i bawb am ddal i gefnogi.

*Enillwyr mis Hydref:*
Mared Roberts; Alan Davies; D.G.Jones

*Enillwyr mis Medi:*
1af Brenda Baston
2il Nicola Hughes

*Enillwyr mis Awst:*
1af Gwilym Owen
2il Diane Hulme

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ol llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru ar ol colli anwyliaid.

Cofiwch roi gwybodaeth i'r Ficer neu Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Newid dros y gaeaf!**
Mae trefn y gwasanaethau'n newid o fis Medi ymlaen, felly o hynny tan y Pasg, bydd y drefn fel a ganlyn:

**Gwasanaethau Eglwys Crist:**
**Suliau 1af a'r 2il yn y mis**:
11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Mae'r drefn newydd er arbed ychydig o gostau goleuo a chynhesu adeilad mor fawr dros y misoedd oer a thywyll.

Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd, ein ficer, ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, neu'r Parchedig Sara Roberts, ein offeiriad cynorthwyol, ar 07967652981.

# Cyngor Cymuned Bethesda

Ymwelodd Sean Taylor, sylfaenydd Zip World, â Chyngor Cymuned Bethesda ar ddiwedd Hydref. Yn ystod y cyfarfod rhoddodd hanes byr o sut y sefylwyd Zip World a sut mae'r cwmni yn cyflogi prentisiaid, yn cynnig contractau parhaol a chontractau oriau sero er mwyn addasu i natur tymhorol y gwaith.
Cyfeiriodd hefyd at y Prosiect Swing (siglen) sydd newydd dderbyn caniatad cynllunio, ac sydd yn anelu at wneud y busnes yn llai tymhorol a chynyddu gweithgareddau yn y misoedd tawelach. Yn ogystal, nododd Mr Taylor eu bwriad i gefnogi uwchraddio sgiliau pobl leol, gan roi cyfleoedd i bobl ifanc trwy bartneriaethu gyda sefydliadau fel Partneriaeth Ogwen, ac i gymryd rhan gyda Chlwb Ieuenctid Bethesda.

Trafodwyd hefyd y prosiect e-bws, gyda'r cyngor yn mynegi siom nad aeth ymlaen, gan y gallai fod wedi lleihau traffig, gyda 98% o ymwelwyr yn cyrraedd trwy yrru car. Bydd y cyngor yn cysylltu efo Zip World i drafod ymhellach.

Diolchwyd i Mr Taylor am fod yn bresennol gan bwysleisio yr angen am well cyfathrebu a hynny yn gyson gan Zip World â'r gymuned leol i sicrhau gweledigaeth glir i'r dyfodol.

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Diolch yn fawr i'r Parchedig Olaf Davies, a'r Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, am oedfaon bendithiol yn ystod mis Hydref. Gan fod y Parchedig Robert Capon wedi methu bod gyda ni oherwydd anhwylder, fe gynhaliwyd oedfa o dan arweiniad Menai a Walter – diolch iddynt hwythau.

Ac i gloi Suliau'r mis, cawsom gyfle i fynd i Gapel y Rhos, Llanrug, i ymuno gyda'u haelodau hwy, ynghyd â chynrychiolaeth o Gapel Caeathro, a Chysegr, Bethel. Gwasanaethwyd gan ein Gweinidog, a gweinyddodd y Cymun i ni yn ystod yr oedfa.

**Boreau Coffi**
Hyfryd yw gweld gwahanol gymdeithasau ac unigolion yn manteisio ar y cyfle i gynnal boreau coffi yn y Festri. Mae'r ystafell yn un hwylus iawn, ac mae'n hawdd cyrraedd yr adeilad. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Walter Williams (01248 601 167).

**Gwasanaethau'r Sul:**
Tachwedd 16: Y Parchedig Eric Jones (5)
Tachwedd 23: Y Gweinidog (10)
Tachwedd 30: Mr Richard Morris Jones (10)
Rhagfyr 7: Trefniant Mewnol (10)
Rhagfyr 14: Y Gweinidog (10) Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7)

**Llenwi'r Cwpan** Cofiwch alw i mewn am baned a sgwrs ar fore Iau, o 10 tan hanner dydd – mae croeso cynnes yn eich disgwyl.

**Harddwch yr Hydref**
Nid yw'r newid yn y tymhorau yn ein siomi byth, ac mae'r hydref eleni wedi bod yn arbennig o liwgar, fel y gwelwch o'r llun isod o ardd y Capel:



A dyma i chi ran o awdl wych y Prifardd Dic Jones i'r Cynhaeaf:

Yn y gwynt mae clychau gŵyl
Heno'n canu'n San' Cynwyl,
Bydded wych i'r Goruchaf
Ddiolch dyn yn nherfyn haf
Am fod irder y gweryd
Yn adfywhau'i dwf o hyd.

# Alun Ogwen Thomas neu Alun Bingos i rai

**Alun a'r Subaru fu'n rhan mor bwysig o'i fywyd.**

Nid gormodiaith ydy dweud bod ton o dristwch a chwithdod wedi dod dros Ddyffryn Ogwen pan gyhoeddwyd y newyddion am golli Alun Ogwen Thomas neu Alun Bingos. Gallwn ddweud heb amheuaeth bod Alun yn un o'r hogia' clenia' fu'n fraint inni ei adnabod erioed. Doedd o byth yn pasio heb gael sgwrs fach efo hwn a'r llall a bob amser yn gwrtais ac yn ddifalais. Mi gwrddais i Alun, a Gwyn ei frawd yn ôl tua 1974 pan oeddwn newydd symud o Gilfodan i fyw yn Rallt Isa, Gerlan. Roedd Clwb Rygbi Bethesda newydd gael ei sefydlu ac un pnawn braf digwyddais fynd am dro tua Gwernydd a phont Gwaun Gwiail. Yn y cae chwarae o dan y lôn, dyna lle roedd dau ŵr ifanc, sef Alun a Gwyn, yn ymarfer cicio a dal pêl rygbi a dyna ddechrau cyfnod hir o chwarae'r gêm honno i Bingos. Bu'n chwaraewr ymhell wedi pasio ei 50 oed a hyfryd oedd ei weld yn chwarae run pryd â'i feibion. Dros y blynyddoedd deuthum i gael aml i sgwrs efo Alun gan sylweddoli dyn mor hyfryd ei natur oedd o. Bydd y cof amdano'n para'n hir yn ardal Bethesda.

Isod braint ydy cael cynnwys teyrnged Yvonne Dignam, merch Alun, i'w thad. Roedd pawb a fynychodd angladd Alun yn yr amlosgfa ym Mangor wedi eu cyfareddu gan y cariad amlwg oedd gan ei blant at eu tad a'r cariad a'r gofal a roddodd yntau i'w blant ar ôl iddynt golli Jean, eu mam, pan oedd hi ond yn wraig cymharol ifanc.

**D.S.**



**Dad**

Cafodd Dad ei eni ar fferm Tyddyn Du, Gerlan. Cafodd blentyndod hapus iawn yng nghwmni ei chwaer fawr, Nesta a'i frawd bach. Gwyn, a hefyd bu'n ffrind da i'w gefndryd, Ian, Billy a Robin.

Roedden nhw'n griw reit ddireidus ac mi gawsant lawer o anturiaethau yn Nhyddyn Du. Dyna'r storïau y tyfodd Kevin a finna' ac Alan i fyny efo nhw - nid y storïau cyn gwely traddodiadol o lyfr ond hanesion am Dad a'r criw yn gwneud pob math o ddrygioni. Nid drygioni go iawn ond direidi, ac mae hi wedi bod yn bleser medru pasio'r hanesion yma i'n plant a'n hwyrion ein hunain. Bydd y plant i gyd yn gwybod am Taid Alun os cawson nhw'r fraint o'i adnabod ai peidio. Er yr holl ddireidi yn blentyn tyfodd Dad i fod yn ŵr bonheddig iawn. Cyfarfu Dad â Mam mewn disgo yn Llangefni, lle oedd yn bell o adre bryd hynny. Tyfodd y berthynas ac yn 1968 priododd y ddau a dechrau ar eu bywyd teuluol. Ymhen ychydig daethant i ymgartrefu yn 24 Ffordd Gerlan ac yno yn gyntaf daeth Kevin, wedyn fi ac yna Alan yn olaf. Mi gawson ni fywyd hapus iawn yn Gerlan, gan fynd am dro at y bont neu i fyny i Giltwllan bron iawn bob dydd. Ond yr anturiaethau i fyny ar y mynyddoedd ydi fy atgof mwyaf efo Dad. Fi a fo yn mynd am dro i fyny o Gerlan, cael picnic ac edrych i lawr ar bob man a gwrando ar storïau Dad. Unwaith, wrth ddod i lawr daeth storm ac roedd Dad yn gweld pa mor ofnus oeddwn i, ond ei ymateb naturiol oedd gwneud i mi deimlo'n ddiogel a rhoi digon o sicrwydd i mi ei fod yn gwybod y ffordd adref. Er hynny, ychydig flynyddoedd wedyn, wrth siarad am yr antur honno dwedodd nad oedd ganddo ddim syniad lle'r oedden ni a ffliwc lwyr oedd hi ein bod wedi cyrraedd adre.

**Ei hoff bethau**

Ar ôl ei deulu, rygbi oedd y peth pwysicaf ym mywyd Dad, gêm bob Dydd Sadwrn ac wedyn adref i gael y paciau rhew ar ei anafiadau. Cafodd y pleser o chwarae i Glwb Rygbi Bethesda a chwarae gyda llawer o hogia

# Gair neu ddau

## John Pritchard

## Chwarae Rhan

Am ryw reswm, anaml iawn y bydda i'n gwylio'r teledu ganol dydd. Ond mi wnes i hynny amser cinio heddiw er mwyn – coeliwch neu beidio – cael rhywbeth i'w ddweud wrth ddarllenwyr *Llais Ogwan*.

Cip olwg sydyn iawn ar ddau o gynyrchiadau *Netflix* ges i. Gyda help y 'peth pwyso' (gair ein tŷ ni am y *remote control*), gwibio mewn ychydig funudau wnes i drwy rai o raglenni *The Witcher* a *House of Guinness*. Dwy gyfres ddieithr i mi; ond mi welais ddigon i ddeall eu bod yn dra gwahanol i'w gilydd o ran cynnwys ac arddull. Ond un peth sy'n gyffredin iddyn nhw ydi bod rhai o olygfeydd y naill a'r llall wedi eu ffilmio yma yng Ngwynedd. Rhaid cyfaddef nad ydw i'n ddigon cyfarwydd â stafelloedd Castell Penrhyn i'w hadnabod yn *House of Guinness*, ond mae'n siŵr fod rhai ohonoch wedi sylwi arnyn nhw wrth wylio'r gyfres. Roedd hi'n dipyn haws i mi nabod Castell Dolbadarn, a Llyn Padarn a'i lannau yn *The Witcher*.

Chwarae rhan oedd y ddau gastell wrth gwrs. Adeilad (neu adeiladau) moethus yn Nulyn oedd Castell Penrhyn. Castell yng ngwlad ffuglennol Lyria a Rivia oedd Dolbadarn, ac afon Yaruga oedd dyfroedd Llyn Padarn. Ond i'r cyfarwydd o ddyffrynnoedd Ogwen a Pheris, adeiladau a golygfeydd lleol a welwyd ar y sgrin.







Chwarae rhan ydi hanfod byd y ffilmiau wrth gwrs. Actio, smalio, cymryd arnyn nhw fod yn rhywun arall a wna'r actorion. Ac fel y sylwais yn gynharach eleni dros gyfnod ffilmio rhai o olygfeydd *The Witcher* yn yr ardal hon, mae'r cwmnïau mawrion yn mynd i drafferth a chost enfawr i greu'r byd hwn o chwarae rhan, yn y gobaith y bydd miliynau o bobl yn mwynhau'r gwaith gorffenedig. A'r hyn a wêl y bobl hynny wrth gwrs fydd Dulyn, Lyria a Rivia ac afon Yaruga! Dyna, wedi'r cwbl, ydi crefft a chyfrinach byd y ffilmiau.

Llai deniadol o lawer ydi tuedd pobl i chwarae rhan yn y byd go iawn, fel y giwed sy'n ffonio'n ddi-baid gan honni bod yn gynrychiolwyr rhyw gwmni ffôn neu fanc neu'i gilydd. Ond nid twyllwyr o'r fath yn unig chwaith: medrwn ninnau ar brydiau fod yn euog o chwarae rhan. Oes beryg i ni, er enghraifft, fod yn bobl wahanol ymhlith ffrindiau

dyfodd i fod yn chwaraewyr chwedlonol yn y tîm lleol. Ar wahân i hynny, cafodd hefyd chwarae yn yr un tîm â Gwyn, Kevin ac Alan mewn rhai gemau fydd yn atgof hapus iawn iddyn nhw am flynyddoedd i ddod.

Roedd Dad yn ddyn ei filltir sgwâr a thrip yr Ysgol Sul i Rhyl oedd y pellaf iddo fod yn blentyn. Yn yr oes honno roedd y daith i'r Rhyl yn cymryd hanner diwrnod ac uchafbwynt y daith oedd yr oedolion yn gorfod mynd oddi ar y bws i gerdded dros bont Conwy a'r plant yn cael aros arni. Er hynny cafodd Dad lawer o wyliau yma a thramor gyda Mam a gwneud atgofion hapus iawn o'u blynyddoedd gyda'i gilydd. Ychydig o flynyddoedd ar ôl colli Mam cafodd ei berswadio gan ei ffrindiau annwyl, Glyn ac Anwen, i fynd i Florida. Aeth Kevin, Alan a'r wyrion Siôn a Mark efo fo ac am hwyl gawson nhw efo'i gilydd yno efo llawer o atgofion hapus iawn ganddyn nhw i gyd am wyliau diddan a difyr.

**Y Subaru**

Ar ôl gweithio yn Chwarel y Penrhyn am lawer o flynyddoedd treuliodd amser hapus tu hwnt gyda Kevin a chriw o ffrindiau da fu'n gefnogol iawn iddo pan gollodd o Mam. Yna, daeth ymddeoliad a phrynu ei Subaru cyntaf a rhaid cofio nad oedd dad ddim yn dreifio pan oedden ni'n blant ond doedd Mam ddim eisiau iddo fod yn dibynnu ar bawb ar ôl iddi hi fynd ac felly doedd dim amdani ond mynd ati i ddysgu dreifio ac mi basiodd ei brawf gyrru ar y cynnig cyntaf. Y Subaru oedd ffefryn mawr fel mae pawb yma heddiw'n gwybod. Roedd pawb yn clywed Dad yn dod cyn ei weld o, a'r wyrion i gyd wrth eu boddau yn cael lifft o'r ysgol yn y Subaru.




Treuliodd ei ddyddiau ar ôl ymddeol yng nghwmni Gwyn ar y fferm yn Nant Ffrancon ac roedd y dyddiau hynod o hapus oedden nhw, er bod diwrnod o flaen y teli hefo Sky Sports yn dod yn agos. Roedd o'n cadw trît felly tan y "wîcend" medda fo. Er hynny roedd raid cael mynd i fyny at Gwyn a Ros am banad a chlywai'r ddau'r car yn dod i fyny'r lôn pan oedd hi'n nesáu at dri o'r gloch.

'Roedd y dyddiau ar y fferm yn dechrau gyda Gwyn yn paratoi'r brecwast, ac yntau'n gwybod bod Alun ar y ffordd i fyny pan glywai sŵn y car yn rhuo yn y pellter. Felly, rhoi'r bara yn y tostiwr a'r tegell ymlaen fel bod y brecwast ar y bwrdd yn barod pan oedd Dad yn cyrraedd. Roedd yr arferiad yma'n cario 'mlaen trwy'r dydd, ac roedd rhaid cael paned ganol bore, a chinio bach ac yna paned dri. Mae'r plantos i gyd wedi tyfu i fyny yn cael paned 3 o'r gloch efo Taid Alun.

Yn ddiweddar dechreuodd Ian, y prentis, ymuno â nhw yng Ngheunant, ac yno hefyd roedd ganddyn nhw eu trefn arferol i'r diwrnod ond dwi'n reit siŵr bod mwy o yfed paneidia' a siarad yn mynd ymlaen nag oedd 'na o waith. Heddiw, yng Ngheunant, cartref Gwyn a Ros, mae ôl Dad i'w weld ym mhobman gyda thai bach i'r adar roedd o wedi eu llunio ar bob coeden. Mae ei waith llaw i'w weld ar hyd y lle a'i ffyn crefftus a phoblogaidd wrth y drws. Mae hi'n gysur cael mynd yna a gweld ôl Dad ym mhob man fel y mae hi i Gwyn, Ros, Angharad, Lowri a'r plantos i gyd. Roedd pob un â meddwl y byd ohono, fel roedd yntau'n meddwl y byd ohonyn nhw.

**Geiriau o gysur**

Dyma rai o'r geiriau o gysur dan ni wedi eu derbyn ymhlith yr holl negeseuon ers i Dad ein gadael ni. Maen nhw'n disgrifio Dad yn union fel roedd o i bawb.

*'Cymydog ffeind'; 'dyn speshal iawn'; 'dyn clên ofnadwy'; 'byth yn pasio heb ddweud 'helo' a gofyn am bawb'; 'crefftwr ffyn arbennig'; 'colled fawr i'r ardal'.*

Mi fasa mynd am dro hefo Dad fel roedd o yn yr wythnosau cyn iddo fynd yn rhy wael yn cymryd amser, dim am ei fod yn ara' deg yn cerdded ond am fod rhaid iddo siarad hefo pawb, hyd yn oed y "fusitos" fel roedd o yn eu galw, neu bethau gwaeth pan oedden nhw'n parcio yn wirion yn Gerlan. Mi fasa raid iddo gael dweud yn ei Saesneg gorau, "how was it up there?" fel petaen nhw di bod i'r gofod.

Mi fydd Dad yn ein calonnau am byth ac mae o wedi'n gadael efo stôr fawr o atgofion.

---

i'r hyn ydym o fewn y teulu? Oes ynom duedd i siarad ac ymddwyn yn wahanol yn y gwaith i'r hyn a wnawn o gwmpas y pentref?

Dim ond ffŵl fyddai'n gwadu bod chwarae rhan yn neilltuol o beryglus yn grefyddol ac yn y bywyd Cristnogol. Rhybuddiodd Iesu rhag hyn fwy nag unwaith. 'Gochelwch rhag gau broffwydi, sy'n dod atoch yng ngwisg defaid, ond sydd o'u mewn yn fleiddiaid rheibus' (Mathew 7:15). 'Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn glanhau'r tu allan i'r cwpan a'r ddysgl, ond y tu mewn y maent yn llawn trachwant a hunanfoddhad' (Mathew 23:25). Yn amlwg, rhybudd sydd ganddo rhag rhoi'r argraff o fod yn bobl wahanol i'r hyn ydym mewn gwirionedd. Mi fedrwn roi argraff i eraill ein bod yn well ac yn fwy duwiol nag ydym. Ond er y medrwn o bosib dwyllo pobl, mor bwysig yw cofio na fedrwn dwyllo Duw, sy'n gweld yn glir bob ymdrech i chwarae rhan. Onid dymuniad mawr pob Cristion ddylai bod yn onest a diragrith ym mhob peth?


BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL

Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llanllechid** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn **31 Rhagfyr 2025**

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Caroline Jones,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda,
LL57 3AE
01248 602131

E bost:
cyngorllanllechid@ogwen.org

## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

### Capel Shiloh Newydd

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma fanylion gwasanaethau Tachwedd/Rhagfyr a gynhelir yn y Neuadd am 10 o'r gloch y bore:
Tachwedd 23: Dr. Ian Morris
Tachwedd 30: Ellie Jones
Rhagfyr 7: Richard Owen Jones
Rhagfyr 14: Gwyndaf Jones
Rhagfyr 21: Parch Aled Davies

Croeso cynnes iawn i bawb.

**Clwb Ieuenctid**
Cafodd y Clwb Ieuenctid, sy'n cyfarfod yn y Neuadd bob nos Fawrth rhwng 7.15 ac 8.45, ddechrau da a phrysur ers ailddechrau ym mis Medi. Ymhlith y gweithgareddau a drefnwyd hyd yma bu noson gemau gyda gwobrau, noson carioci a chystadleuaeth dartiau. Os ydych chi'n ddisgybl ysgol uwchradd rhwng 11-16 oed dewch draw i'r Neuadd ar nosweithiau Mawrth i fwynhau rhaglen o weithgareddau amrywiol.

## Paratoi ar gyfer y Nadolig

Wel, mae'r pentref yn dechrau mynd i ysbryd yr Ŵyl! Mae seremoni flynyddol goleuo'r goeden Nadolig wedi datblygu i fod yn ddigwyddiad poblogaidd iawn yma. Eleni bydd hynny'n digwydd ar nos Sul, Rhagfyr 7, am 6 o'r gloch o flaen Bro Rhiwen fel arfer. Ar ôl goleuo'r goeden bydd cyfle wedyn i bawb fwynhau lluniaeth i gynhesu'r galon: mins peis, siocled poeth a gwin poeth (*mulled wine*). Mae si hefyd y bydd rhywun arbennig yn galw heibio i ddymuno'n dda i bawb cyn diwedd y noson!

Ond cyn hynny mae cyfle ichi i gyd ymuno yn yr ymarferion canu carolau am dair nos Sul yn olynol, ar Dachwedd 16, Tachwedd 23 a Thachwedd 30, yn y Neuadd. Bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal am 6 o'r gloch. Yn ôl un o'r trefnwyr, Sharon Griffith, does dim rhaid bod yn gantorion o fri: "Mae'n lot o hwyl ac mae 'na lot fawr o chwerthin yn digwydd wrth inni ganu!" Dewch yn llu fel y bydd y pentref i gyd yn medru clywed y canu gwych o gwmpas y goeden ar noson y seremoni!

Diolch o galon i Gyfeillion Rhiwlas am drefnu'r digwyddiad yma, sy'n gyfle mor arbennig i ddod â'r gymuned at ei gilydd ar drothwy'r Nadolig.





**Cyngerdd Nadolig yr ysgol**
Eleni bydd cyngerdd yr ysgol yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, Rhagfyr 2, am 6 o'r gloch yn y Neuadd. Dewch yn llu i fwynhau gwledd o ganu a pherfformio gan blant talentog ysgol y pentref!

**Merched y Wawr**
Mwynhaodd yr aelodau daith ryngwladol i sawl gwlad heb symud o'r neuadd bentref yn ein cyfarfod fis Hydref! Carys oedd arweinydd y cyfarfod a thestun ei sgwrs oedd ei phrofiadau teithio yn y 70au.

Roedd hi a'i gŵr Cynrig wedi bod yn gweithio yn Awstralia pan benderfynodd y ddau deithio'n ôl i Gymru draws gwlad yn hytrach na defnyddio awyren, taith 6 mis a thrwy 19 o wledydd. Dangosodd Carys sawl gwrthrych a gasglodd y ddau fel enghreifftiau o grefftau unigryw gwahanol wledydd.

Rhannodd hefyd rai o brif brofiadau'r daith megis cerdded drwy'r jyngl rhwng Laos, Gwlad Thai a Cambodia: Roedden nhw'n teithio ar fws yn India pan darodd y bws lori a'r cerbydau'n dinistrio caffi bychan ar ochr y ffordd; roedd rhaid talu sawl milwr i gael mynediad i wledydd ac ardaloedd megis Kashmir ac wrth fynd o India i Bacistan; bu'n rhaid iddyn nhw aros yn Kabul am gyfnod oherwydd bod y ddau yn dioddef gyda malaria.

Nododd Carys mai'r ddwy wlad a wnaeth yr argraff fwyaf arni hi oedd Affganistan ac Iran, gwledydd y mae bron yn amhosib cael mynediad iddyn nhw'r dyddiau hyn. Mwynhaodd hi a Cynrig groeso cynnes gan bobl Affganistan ac roedd y golygfeydd prydferth tu hwnt yn nyffrynnoedd Panjir a Bamian yn drawiadol. Roedd safleoedd hanesyddol Iran yn aros yn y cof hefyd, meddai, megis Persepolis, Shiraz ac Esfahan ond roedd tensiynau gwleidyddol yn amlwg a'r heddlu cudd yn eu dilyn nhw i bob man.

Diolchodd Linda i Carys am sesiwn ddiddorol ac am ddod â'r creiriau a gasglwyd ganddi i'w dangos. Catherine a Nia oedd yn gyfrifol am y baned a Linda enillodd y raffl.

**Clwb Rhiwen**
Ein gwraig wadd ar brynhawn Mercher Hydref 15 yn y Neuadd oedd Carrie Rimes o Cosyn Cymru, Llaethdy Gwyn, Bethesda. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi am ei gwaith yn sefydlu'r Llaethdy ym Methesda a sut y datblygodd y cawsiau gwahanol. Kate oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad.

Ni fydd cyfarfod yn y Neuadd ym mis Rhagfyr gan y bydd yr aelodau yn ymweld â'r Four Crosses ym Mhorthaethwy ar gyfer ein cinio Nadolig. Bydd y Clwb yn ail ymgynnull yn y Neuadd ar y trydydd prynhawn Mercher ym mis Ionawr am 2 y.p. Mae croeso cynnes i bawb dros 50 ymuno â ni.




1969
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

**Tafarn Y Faenol, Sgwâr Pentir**
Prynhawn dydd Sul 26ain Hydref, daeth criw helaeth ynghyd o flaen Tafarn Y Faenol i ddangos eu cefnogaeth i'r fenter i ailagor y dafarn.

Mae'r gymuned yn parhau gyda'r gobaith i ail agor y dafarn a gyda threigl amser bydd eu dymuniad yn cael ei wireddu.

**Prynhawn Macmillan**
Cynhaliwyd prynhawn coffi a chacen yng nghartref Michelle a Harry yn ddiweddar. Daeth nifer dda heibio i fwynhau'r danteithion ac i gyfrannu tuag at yr achos haeddiannol yma. Diolch i bawb a fu'n gymorth i wneud y prynhawn yn gymaint o lwyddiant a chodwyd swm anrhydeddus o £655.

Yn ystod y prynhawn roedd ein meddyliau'n troi tuag Yn ystod y prynhawn roedd ein meddyliau'n troi tuaga at y diweddar Linda Sammonds, person fu mor daer yn codi arian er budd achos Macmillan.

### Eglwys St. Cedol, Pentir

**Clwb Crefftau**
Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod bob Prynhawn Gwener o'r mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch a bydd y Te Bach nesaf ar y 3ydd Rhagfyr. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Hamper Misol**
Rydym cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i cynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Medi oedd David Emlyn yn roddedig gan Nia.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estenedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Ysgol Rhiwlas**
Braf iawn oedd cael croeshawu athrawon a phlant Ysgol Gynradd Rhiwlas i'r Eglwys ar fore Mercher 22 Hydref ar gyfer ei gwasanaeth Diolchgarwch i ddathlu'r cynheaf. Diddanwyd y gynilleidfa gyda chaneuon addas ar gyfer y tymor. Braf oedd gweld cynifer wedi troi allan i'ch clywed. Da iawn chi blant a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled.

**Tê Prynhawn Sul**
Hoffem fel eglwys ddiolch i Cefin a Rhian am agor drws eu cartref Plas Tirion prynhawn Sul y 19 o Hydref ar gyfer Te Sul - cafwyd prynhawn llwyddianus iawn. Diolch o waelod calon i chi'ch dau am y croeso a'ch caredigrwydd. Roedd yr elw er bydd Cronfa Atgyweirio Eglwys St. Cedol.

**Gymanfa Garolau**
Bydd Gymanfa Garolau yn cael ei chynnal a'r y 30 o Dachwedd am 7.30yh yn Eglwys St. Padarn, Llanberis, gyda Chôr Glanaethwy ac unawdydd gwadd, oll dan arweiniad Cefin Roberts. Mae mynediad yn £10, plant a phensiynwyr £8. Bydd yr elw er bydd Cronfa Atgyweirio Eglwys St. Cedol.

**Gŵyl Coeden Nadolig**
Ar ôl Gŵyl Coed Nadolig lwyddianus iawn y llynedd, eleni mae Eglwys Sant Cedol, Pentir yn cynnal Gŵyl Coeden Nadolig dros benwythnos y 13eg a'r 14eg o Ragfyr, bydd yr Eglwys a'r agor yn y prynhawn rhwng 1.30yh a 4yh.

Bydd mwy o glybiau a sefydliadau lleol yn gymryd rhan eleni drwy arddangos coeden addurnedig i hyrwyddo eu clwb/sefydliad.

Bydd yr elw er bydd Cronfa Atgyweirio Eglwys St. Cedol.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys, cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu i gael sgwrs.

# YSGOL RHIWLAS

**Calan Gaeaf**
Diolch yn fawr iawn i aelodau o'r heddlu am ymweld â'r ysgol i sgwrsio gyda'r plant am sut i gadw'n ddiogel dros gyfnod Calan Gaeaf. Rydym yn edrych ymlaen eu croesawu nol i'r ysgol mis nesaf i ddysgu mwy am waith yr heddlu.

**Y Gofod**
Thema Cyfnod Allweddol 1 am y tymor yma yw'r gofod. Mae'r plant wedi bod yn dysgu am y system solar, ac mae eu darluniau o'r planedau yn werth eu gweld! Mae pawb wrth eu boddau yn canu 'Cân Y Gofod' gan griw Cyw.

**Noson agored**
Diolch yn fawr iawn i'r athrawon am gynnal noson agored ar gyfer rhieni'r ysgol. Bwriad y noson oedd rhoi cyflwyniad i rieni am y cwricwlwm a'r hyn y bydd y plant yn dysgu dros y flwyddyn addysgol. Hefyd cafwyd sgwrs gan Meirion o Fenter Iaith Gwynedd am y gwaith pwysig mae'r mudiad yn ei wneud i hybu'r iaith Gymraeg yn yr ardal.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Braf iawn oedd gwrando ar y plant yn canu ac yn darllen yn ystod eu gwasanaeth diolchgarwch eleni yn Eglwys Sant Cedol, Pentir. Cafwyd perfformiadau gwych gan y plant i gyd. Diolch i'r Parchedig Sara Roberts am y croeso cynnes, a diolch i holl staff yr ysgol am y gwaith hyfforddi.

Rydym yn edrych ymlaen yn arw i ddychwelyd i'r Eglwys ar gyfer gwasanaeth Nadolig ym mis Rhagfyr.

**Kick-It**
Mae sesiynau chwaraeon 'Kick-It' wedi dychwelyd i'r ysgol bob prynhawn dydd Llun, ac mae cyfle i blant o bob dosbarth ymuno yn yr hwyl. Mae'r sesiynau aml chwaraeon yma wedi eu cynllunio i feithrin sgiliau, annog gwaith tîm, ac yn bwysicach na dim – cael hwyl!

**Patagonia**
Thema Cyfnod Allweddol 2 tymor yma ydi 'Patagonia'. Mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu am y Mimosa a hanes sefydlu'r Wladfa. Diolch yn fawr iawn i Cynrig am ymweld â'r ysgol i ddangos ffotograffau o'i daith i Patagonia, a rhoi cyfle i'r plant flasu 'mate' sef diod traddodiadol o Patagonia.

**Celtic Rocks**
Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 lawer o hwyl pan y bu i ddaearegwr o gwmni 'Celtic Rocks' ymweld â'r ysgol. Roedd y sesiwn yn un gwych gyda pob math o weithgareddau daearegol yn mynd a sylw'r disgyblion – o greu llosgfynyddoedd i wneud eira ffug.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Tachwedd 25
Rhagfyr 9 ac 16
am 6.45yh.
Croeso i bawb

---

FESTRI JERUSALEM

## Bore Coffi

Clwb Camera
Dyffryn Ogwen

**Sadwrn, Tachwedd 22**
10.00 – 12.00yb
Mynediad: £1.00
Hanner yr elw tuag at
Ysbyty'r Plant Alder Hey

---

## GIGS NEUADD OGWEN

22.11 – Kelly Lee Owens
26.11 – Mobius Loop
06.12 – Darren Emerson
21.12 – The Furrow Collective
www.neuaddogwen.com

---

FESTRI CARMEL
LLANLLECHID

## Te Bach

Dydd Llun,
Rhagfyr 8
2.30 – 4.00yp

Croeso cynnes
i bawb

---

FESTRI JERUSALEM

## Bore Coffi

Clwb Gorffwysfan
Sadwrn, Rhagfyr 6ed
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

---

## BORE COFFI

yn Eglwys Glanogwen
Sadwrn, Rhagfyr 13
10.00 – 12.00
Tocyn : £3.00
(Yn cynnwys panad
a mins pei)
hefyd
Bydd gwin poeth ar werth.
A raffl a stondin werthu
Bydd carolau'n cael eu chwarae
gydag annogaeth i bobl ymuno yn y
gân.
Elw at yr Eglwys

---

## Clwb Coffi Talybont

FESTRI BETHLEHEM
Bore Llun, 10.30 – 12.00
Tachwedd 24

BWFFE NADOLIG
Rhagfyr 8 am 11.30
Croeso cynnes i bawb

---

St Tegai, Llandygai
Naw Llith a Charol
Traddodiadol yng
ngolau cannwyll
Nos Sul, Rhagfyr 21ain
am 5.00 y.h
Gwin poeth a lluniaeth ysgafn i ddilyn
Noswyl y Nadolig
Nos Fercher Rhagfyr 24ain
am 11.00 y.h.

---

Clwb Criced Bethesda
NOSON

## ELVIS

Nos Wener, Tachwedd 28
am 7.00yh
Tocynnau : £10 (Plant £5)
Cysylltwch â Rosemary
07950 589170
Elw at Eglwys Santes Fair, Tregarth

---

## Bethlehem Talybont FFAIR NADOLIG

yn y Festri
Nos Fawrth, 2 Rhagfyr
am 6.30yh
Mynediad £1.00

---


## Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu?

Cysylltwch â **Neville Hughes** (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

# Partneriaeth Ogwen

**Llyfrgell y Petha**
Diolch i roddion hael gan Adra, mae gan Lyfrgell y Petha bellach ystod o offer ar gael i'w llogi - gan gynnwys amrywiaeth o ddriliau a jig-so. Hoffem hefyd ddiolch i'n ffrindiau yn CL Jones am eu rhodd hael o ddarnau offer ac ategolion.

Cawsom lawer o hwyl yn ystod hanner tymor Hydref yn rhoi cynnig ar ddefnyddio'r offer pŵer ar gyfer ein sesiynau Cerfio Pwmpen arbennig - braf oedd gweld plant o bob oed yn mwynhau eu hunain yn y Gofod Gwneud. Diolch yn fawr i bawb a fynychodd y sesiynau.

Mae modd creu cyfrif drwy ddefnyddio'r ddolen (https://pethapesda.myturn.com/library/) i weld yr ystod lawn o'r hyn sydd ar gael i'ch helpu i arbed arian ac atal gwastraff!







**Diolchgarwch**
Hoffai Hwb Ogwen ddiolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion, capeli ac eglwysi'r Dyffryn am gasglu bwyd Diolchgarwch tuag at yr Hwb. Rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi eich haelioni.

**Beics Ogwen**
Rydym yn falch o allu rhannu ein bod gennym Swyddog Beics newydd. Mae Morgan Griffith yn wyneb cyfawrydd i ni yma ym Mhartneriaeth Ogwen a mae'n edrych 'mlaen at eich croesawu i'r gweithdy yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae Morgan yn gweithio Dydd Mercher i Ddydd Gwener rhwng 9am - 4pm, felly cofiwch alw draw am sgwrs neu os ydych am logi beic trydan, cysylltwch drwy e-bostio beics@ogwen.org neu ffonio 07492 335 170.

**Y Gofod Gwneud**
Os ydych chi'n awyddus i greu rhywbeth yn y Gofod Gwneud ond ddim yn siŵr ble i ddechrau, cofiwch ein bod yn cynnal sesiynau agored bob nos Lun o 4yh tan 8yh. Mae croeso i aelodau o'r gymuned alw fewn am ddim gyda'n technegydd i ddysgu sut i ddefnyddio'r holl beiriannau a chael help gydag unrhyw brosiectau.

**Cydweithfa**
Os ydych yn chwilio am le i weithio a cadw'n gynnes yn ystod yr hydref a gaeaf, beth am roi cynnig ar y Gydweithfa, Canolfan Cefnfaes? Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith modern, proffesiynol gyda chysylltiadau band eang cyflym i'ch helpu i wneud y gorau o'ch diwrnod gwaith. I archebu eich desg, ewch draw i'n gwefan:
https://partneriaethogwen.simplybook.it/v2/

**Seddi Gwag y Cynghorau Cymunedol**
Adroddwyd fod dwy sedd wag dal ar gael ar y Cyngor Cymuned - un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandegai) ac un sedd Ward Llandygai. Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i gael llenwi'r seddi hyn, os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth - e-bost cyngorllandygai@ogwen.org.

## Cyfaill Cymunedol

**A hoffech chi, neu ydych chi'n adnabod rhywun a fyddai'n cael budd o'n gwasanaeth Cyfaill Cymunedol?**
Mae ein gwasanaeth yn cynnwys sgwrsio gydag unigolyn a chadw cwmni iddyn nhw. Os ydych chi neu unrhyw un rydych chi'n adnabod eisiau gwybod mwy am sut gall Linda, ein Cyfaill Cymunedol eich helpu, cysylltwch gyda ni drwy e-bostio hwb@ogwen.org neu ffonio 07862 694 163.




SPAR
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

### Pythefnos 3P ac A – Ysgol Penybryn ac Abercaseg

Yn ystod y bythefnos diwethaf, bu disgyblion Ysgol Penybryn ac Abercaseg yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous fel rhan o Bythefnos 3P ac A, sef Profiadau, Pedwar Diben, Pwerau Dysgu ac Annibyniaeth. Nod y gweithgareddau hyn oedd meithrin sgiliau allweddol, datblygu hyder ac annog dysgu ystyrlon drwy brofiadau cyfoethog.

Ymhlith y gweithgareddau y bu'r plant yn cymryd rhan ynddynt oedd ymweliadau â Chanolfan Ddŵr Conwy, Canolfan Bwlch yr Haearn, a wal ddringo. Yn ogystal, bu sesiynau cyffrous yn yr ysgol megis Kickboxing, yoga, dysgu sgiliau gwnïo gyda Phartneriaeth Ogwen, dawnsio gyda Lowri, sesiynau cyfarfod ag anifeiliaid, ysgol goedwig, garddio, ac amrywiaeth o weithgareddau creadigol a chyffrous eraill.



Roedd y profiadau hyn yn gyfle gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu'r Pwerau Dysgu a magu sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys datrys problemau, cydweithio, arwain a bod yn annibynnol. Heb os, dyma brofiadau fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd lawer, gan gyfoethogi'r dysgu a meithrin angerdd am ddarganfod a thyfu

### Bore Agored – Cyflwyno Blaenoriaethau Ysgol Penybryn ac Abercaseg

Braf iawn oedd cael croesawu rhieni pob dosbarth i'n Bore a phrynhawniau Agored diweddar, lle cawsant gyfle i ddysgu mwy am flaenoriaethau'r ysgol, yn ogystal â threfn a disgwyliadau pob dosbarth.

Cafwyd cyflwyniad bywiog a diddorol drwy fideo gan ddisgyblion Blwyddyn 6, a diolch i'r athrawon a rannodd wybodaeth werthfawr am ein trefniadau darllen a rhifedd ar draws yr ysgol.

Cafwyd cyfle hefyd i fwynhau paned a chacen ym Mhen y bryn, gyda'r elw'n mynd tuag at elusen Macmillan – diolch o galon i bawb a gefnogodd y digwyddiad ac am eich adborth bositif.

### Diwrnod Shwmae Su'mae – Dathlu'r Gymraeg yn Abercaseg a Phenybryn

Bu disgyblion Ysgolion Abercaseg a Phenybryn yn cymryd rhan yn Niwrnod Shwmae Su'mae drwy sicrhau bod pob sgwrs yn dechrau yn Gymraeg! Roedd yn braf gweld pawb yn rhoi ymdrech i hyrwyddo a defnyddio'r iaith bob dydd yn eu coch, gwyn a gwyrdd.

Yn ogystal, bu rhai disgyblion yn llunio posteri lliwgar i fusnesau lleol, gyda'r nod o'u gweld yn ffenestri'r siopau'n fuan – ffordd wych o ledaenu'r neges ac annog pawb i ymdrechu i gychwyn sgwrs yn Gymraeg.

### Pêl-droed Merched Bl 5 a 6

Aeth dau dîm o ferched Blwyddyn 5 a 6 o Ysgol Penybryn i gystadlu yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar.

Chwaraeodd y ddau dîm gyda brwdfrydedd ac ysbryd tîm gwych, gan sgorio goliau a chynrychioli'r ysgol yn arbennig o dda.

Da iawn, genod! Efallai mai aelodau tîm merched Cymru'r dyfodol sydd gennym yma...

### Diolch i'r Parchedig Sara

Hoffem estyn ein diolch diffuant i'r Parchedig Sara am roi gwasanaeth diddorol a theimladwy i flynyddoedd 5 a 6 yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth ystyrlon a thrawiadol am helyntion diweddar yn Gaza, a wnaeth annog y disgyblion i feddwl yn ddwfn ac i fyfyrio ar ba mor ffodus ydym ni yn ein bywydau bob dydd.

### Disgo Calan Gaeaf – Abercaseg a Phenybryn

Gwych oedd gweld plant Abercaseg a Phenybryn yn mwynhau disgo Calan Gaeaf cyn y gwyliau haeddiannol!

Roedd llond ystafell o wrachod bach del, ysbrydion o bob math, a chreaduriaid rhyfeddol a allai godi ofn hyd yn oed ar y person dewraf! Roedd llawer o hwyl, chwerthin a dawnsio yn y ddwy ysgol.



### Gwasanaeth Diolchgarwch- Cyfraniad at y banc bwyd

Am y tro cyntaf eleni, cawsom y fraint o gynnal ein gwasanaeth diolchgarwch yn Eglwys Glanogwen. Cymrodd disgyblion o bob dosbarth o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ran yn y gwasanaeth, gan gyflwyno amrywiaeth o eitemau diddorol.

Cawsom fwynhau canu swynol, stori, cerddi a gweddïau a baratowyd yn ofalus gan ein disgyblion – pob un yn adlewyrchu gwerthfawrogiad a diolchgarwch go iawn.

Hefyd cyfranodd pob disgybl un eitem at y banc bwyd, diolch i deuluoedd hael y ddwy ysgol.

Diolch o galon i'r Parchedig Sara am arwain y gwasanaeth mewn ffordd gynnes ac ysbrydoledig. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at gael cynnal y digwyddiad arbennig hwn eto y flwyddyn nesaf.


Dawel Nos

Cyngerdd Nadolig Ysgol Glanaethwy
Nos Sul, Rhagfyr 21, am 7 o'r gloch

Capel Shiloh Newydd, Tregarth
Tocynnau yn £15 a £12 i blant a pensiynwyr

Mwy o fanylion ar glanaethwy@hotmail.com

# Byd Bychan gan Arthur Rowlands (parhad o rifyn Medi)

Dyma'r geiriau o 'Probate' Edwyn Cynrig Roberts druan:

'Roberts Edwin Cyndrig of Pant Bethesda Llanllechid Caernavonshire gentleman died 17 September 1893 Administration Bangor to Ann Roberts widow Effects £ 151.

Erbyn 1901 mae Ann (54), gwraig y diweddar Edwyn Cynrig wedi ail briodi gyda'r cyn Ringyll William Jones(58) ac yn byw yn y Warren, Llangian, ynghŷd â merch William Jones, Maggie L. Jones gwneuthurwraig dillad, 20 oed. Yn 1902 mae Maggie, merch y rhingyll yn priodi â Derfel ap Edwyn Roberts, un o feibion Edwin ag Ann! Dyna glymu y ddau deulu yna gyda'i gilydd mewn ffordd anarferol ynte! Maent yn cael merch bach Gwladys yn 1907 ym mhlwy' Llanllechid a mab, Bryn yn 1909 yn y Gaiman. Felly'n amlwg maent wedi croesi'n ôl i Batagonia tua 1908. Erbyn 1911 mae William Jones (69), tad Maggie L., sydd yn gweithio fel Asiant Yswiriant, ag Ann sy'n wraig tŷ, 65oed yn byw yn 8 Ffordd Pant Glas, Bethesda. Mae Ann yn dal i fyw yno pan y bu farw ar 22ain o Fai, 1913. Cafodd ei chladdu gydag Edwin ym mynwent St. Anns.

## Teulu'r MacDonalds

Ar ôl colli eu tad Edwin roedd rhaid i'r plant edrych ar eu hôl eu hunain. Erbyn 1901, mae Nest Cynrig Roberts bellach wedi priodi â'g Owen MacDonald ac yn byw yn rhif 40 Stryd y Ffynnon, Gerlan, Nest yn 23 oed ac Owen yn 24. Owen yn chwarelwr ac wedi ei eni yn Llanllechid. Mae'r ddau yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Ganwyd merch iddynt, Christina ar Hydref 28ain, 1901 a mab iddynt ar Hydref yr 28ain, 1902 yn y Gerlan o'r enw Edwin Kenrick MacDonald, wedi ei enwi ar ôl ei daid. Ganwyd mab arall iddynt yn 1905 ar Dachwedd 24ain. Erbyn hyn mae'r teulu bach yn byw yn Brixtworth, Swydd Northampton.

Dyma ychydig o gefndir y MacDonalds -yng nghyfrifiad 1901 mae mam Owen MacDonald, sef Cathrine yn 51oed, yn wraig weddw, wedi colli ei gŵr Donald William MacDonald yn 55 mlwydd oed yn gynharach yn y flwyddyn ar Ionawr 1af ac yn byw gyda'i mab Angus, 20, yn rhif 17 Stryd Y Ffynnon, Gerlan. Ganwyd Donald yn yr Alban a gwyddom ei fod yn gweithio fel bugail ac yn byw yng Nghaerhun yn 1871.Mae wedi priodi â Chatherine yng nghyfrifiad 1881 gyda dau o blant, Owen,3 oed, ac Angus yn 6 mis ac yn byw yng Nglan Llugwy, Llanllechid. Erbyn 1891 maent wedi symud i fyw i 17 Stryd y Ffynnon, Gerlan gyda'i mab Angus sy'n 10 oed. Mae'r tad yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg tra dim ond y Gymraeg y siaradai Catherine ac Angus. Fe ffendiwn Owen a'i frawd Robert William (7 oed) yn byw drws nesa' mae'n debyg, yn rhif 19 Stryd y Ffynnon gyda'i modryb, Mary Owens,gwraig weddw 52 oed. Felly roedd y teulu MacDonald yn byw yn nhri tŷ yn Stryd y Ffynnon ar un adeg.

Gweler lun o fedd Donald William MacDonald, Catherine ei wraig a'u plentyn Robert William, a fu farw yn 10 oed yn 1893, o fynwent Glan Ogwen. Mawr yw fy niolch i Emyr a Heulwen Roberts amdano.




Cofiwn ein bod yng nghanol y Streic Fawr yn y cyfnod yma (1901) a gwyddom fod y streic wedi cael effaith erchyll ar fywydau llawer iawn o drigolion yr ardal. Tybed sut oedd pethau ar Owen a Nest? Gwelwn ei fod wedi newid ei swyddogaeth rhwng bod yn chwarelwr yn 1901 i fod yn fugail, fel ei dad yn 1906.

Mae Donald William MacDonald, trydydd plentyn Owen a Nest Cynrig yn cael ei eni yn Brixworth, Swydd Northampton ble mae Owen yn bugeilio. Serch hynny, dychwelant i Fethesda i fedyddio'r plentyn yn eglwys Glan Ogwen ar y23ain o Orffennaf 1906.Rhoddir eu cartref fel The Tythe Barn, East Haddon. Ychydig wythnosau yn ddiweddarach ar yr 22ain Dachwedd cawn y teulu yn croesi'r moroedd am Dde America. Rhestrir Owen a Nest, y rhieni, gyda Christiana, Edwin a Donald MacDonald ar y rhestr teithwyr. Dyma Nest yn dychwelyd i wlad ei geni gyda'i theulu. Roedd nifer o'i brodyr a'i chwiorydd wedi dychelyd o'i blaen ac os deallais yn iawn fe ddychwelodd pob un ohonynt yn ôl. Gwyddom i Cynrig ap Edwin ddychelyd i Batagonia yn 1909 ond fe fu farw yn Cloverdale, Vancouver yn 80 oed. Yr oedd yn gyn aelod o'r eglwys yn Nhregarth.

Cyn gorffen dyma ychydig o wybodaeth pellach am beth ddaeth o'r rhingyll William Jones.Mae cofnod o Probate i William Jones, a oedd yn dal i fyw yn 8 Ffordd Pant Glas, Bethesda ar 25ain o Ebrill 1919 a chofnod o'i farwolaeth ar Fawrth y 26ain. Mae swm o £238 /13s/10c yn mynd i'w weddw Jane Jones. Yn amlwg mae William Jones wedi priodi am y drydedd tro ar ôl marwolaeth Ann.

Felly mae dau hen daid a dwy hen nain i'r diweddar Elvey MacDonald wedi eu claddu yn Nyffryn Ogwen a chysylltiad agos rhwng yr ardal a Phatagonia.

## Tro yn y Gynffon!


Dywedais ar y cychwyn fod Hunangofiant Elvey MacDonald yn gyfarwydd i mi a phan yr estynnais am fy mocs o lyfrau yn ymwneud â Phatagonia - 'Llwch' ydi y teitl a roddodd Elvey MacDonald ar ei gyfrol ac yno darganfyddais fy nghyfrol i a chopi o 'Yr Hirdaith' gyda sawl cyfrol arall. Disgynnodd copi o lythyr allan o'r gyfrol a yrrwyd at y Parch.Arthur M.Roberts a Mrs. Roberts oddi wrth Megan Williams de Jones, Eileen James de Jones a Valerie James de Irianni a oedd wedi dod i law Rhiannon, fy niweddar wraig, dwi'n cymeryd gan ein Gweinidog, y Parch.Geraint Hughes yn gwenud cais am gymwynas – 'buasem wrth ein boddau petasem yn gallu cael darn o lechen o Fethesda yng Nghymru' gan fod Capel Bethesda y Wladfa yn dathlu ei ganmlwyddiant.

Mae yna rhyw atgo' am y digwyddiadau a dwi'n siwr bod y cais wedi ei wyreddu ond tybed a all un o'ch darllennwyr roi mwy o oleuni ar sut y daeth pethau i fwcl. Gobeithio y bydd yna ofod yn y fenter newydd ar safle hen siop y Spar ar gyfer pethau fel hyn.

Wrth gloi hoffwn ddiolch o galon i bawb a'm cynorthwyodd gyda'r amrywiol luniau.



**Edwyn Cynrig hŷn ac yn fengach isod.**



# YSGOL BODFEURIG

**Shwmae Su'mae**

Ydych chi'n gwneud ymdrech i ddechrau pob sgwrs yn y Gymraeg? Dyna oedd bwriad plant yr ysgol ar ddiwrnod Shwmae Su'mae. Roedd yn braf gweld pawb yn cyfarch ei gilydd yn y Gymraeg ac yn bwriadu mynd a'r neges adref hefyd. Cafwyd hefyd gyfle i ddysgu a rhannu jocs Cymraeg – roedd llond gwlad o chwerthin i'w glywed a pawb wedi mwynhau dysgu jôcs newydd.

**Poburdd**

Mae cogyddion bendigedig yma ym Modfeurig a gwelwyd hyn yn ddiweddar wrth i rai ohonynt gymryd rhan yng nghystadleuaeth Poburdd. Roedd angen coginio cacen ar gyfer dathliad, cafwyd pdeair ymgais arbennig – llongyfarchiadau mawr i Fern oedd yn fuddugol a fydd yn mynd ymlaen i'r rownd rhanbarthol yn fuan.



**Hydref**

Pob mis Hydref, a hithau'n gyfnod y diolchgarwch, rydym yn cynnal gweithgareddau i ddathlu ac i ddiolch. I ddechrau, bu dosbarth Ogwen yn brysur yn sgriptio, paratoi ac ymarfer gwasanaeth diolchgarwch ar gyfer yr ysgol. Roedd yn gyfle i ddysgu eraill am bwysigrwydd rhoi a diolch. Yna trefnodd y Cyngor Ysgol i gasglu bwyd ar gyfer banc bwyd Partneriaeth Ogwen. Yna i orffen cafwyd cystadleuaeth cerfio pwmpen a disgo gwisg ffansi – llwyddwyd i gasglu dros £150 ar gyfer yr ysgol yn y disgo!



**BMA Llanberis**

Cafodd dosbarth Ogwen amser arbennig mewn sesiwn blasu gan BMA Llanberis. Cafodd pawb ddysgu sgiliau sylfaenol karate yn ogystal a sut i fod yn ddiogel wrth wneud. Diolch o galon i staff BMA am y sesiwn – cafodd pawb amser wrth eu boddau.




TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

cynghorydd.Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru – 07765 400140 – Arllechwedd
cynghorydd.EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru – 07747 690456 – Gerlan
cynghorydd.Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru – 07789 742092 – Canol Bethesda
cynghorydd.Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru – 07436 927237 – Tregarth & Mynydd Llandygai
cynghorydd.Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru – 07949 034967 – Rachub





STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



MODURON PANDY Cyf.

UNIPART CAR CARE CENTRE

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Iaith Pesda
gan Mary Jones

## Ambell Air ac Ymadrodd

Un o ddarllenwyr selog Y Llais ydy Iona Williams a gafodd ei magu yng Nghiltwllan. Wrth gyfarfod â hi yn ddiweddar dyma hi'n sôn am ddau air a ddefyddiwyd ganddynt ers talwm. Chwarae teg, roedd wedi eu taro i lawr ar bapur imi, a dyma nhw –

**Lardio**. Gweithio'n galed yn gorfforol, yn ein tŷ ni yn cael ei ddefnyddio am fy nhad yn gweithio yn y chwarel neu'n gweithio yn y caeau gwair.
**Smecian**. **(sbecian)** "dôs i gael smêc" neu "dôs i smecian," cymryd cip i wylio rhywun yn ddirgel.

Diolch i Iona draw yn Llanddulas. Dyma restr i chi gnoi cil drostynt.
**Fel riwbob wedi rhedeg.** Dyna ffordd o ddisgrifio hogyn neu hogan ifanc yn eu harddegau cynnar wedi tyfu'n dal yn sydyn – "Ew, mae o wedi prifio'n arw. Mae o 'fath â riwbob 'di rhedag."
**Syrplan.** Enw arall ar y wenwisg eglwysig sy'n cael ei gwisgo dros y gasog gan ficar a rheithor ac aelodau côr eglwys. 'Syrplis' ydy ffurf arall ar yr enw, ac mae o'n dŵad o'r gair Saesneg '*surplice*'. Dyma'r geiriau a fyddai'n cael eu defnyddio gan eglwyswyr yr ardal.
**Nobl.** Mae hwn yn medru golygu 'mawr' – "Ew, dyna sgodyn nobl!". Mae o hefyd yn medru golygu canmoliaeth i rywun – "Hen foi nobl oedd Gwilym."
**Slofi.** Arafu ydy hwn – "Well iti slofi i lawr. Ma'r eira slwtj 'ma'n berig bywyd."
**Bagio.** Dyma ddwedwn ni am symud yn ôl; mynd wysg eich cefn – "Fuo raid imi fagio'r car i le lletach yn y lôn er mwyn i'r lori fedru pasio."
**Castia'.** Gwneud castiau neu chwarae castiau ydy gwneud pethau annymunol – neu driciau diniwed – er mwyn gwneud sbort am ben rhywun neu godi hwyl – "Roedd o'n un garw am chwara castia'."
**Drost**. Dyma ddwedwn ni'n aml yn lle 'dros' – "Aethon nhw drost y bont."
**Sbachu.** Gair arall am ddwyn neu ladrata ydy hwn – "Sbachu fala o'dd yn sbort ers talwm."
**Nogio.** Mae hwn yn golygu gwrthod symud ymlaen oherwydd bod rhywun neu anifail (mul neu geffyl) yn ystyfnigo neu wedi blino'n lân - wedi ymlâdd – "Roedd yr hogia wedi nogio cyn cyrraedd pen yr allt."
**Dôr.** Dyma ddwedwn i am ddrws talcen – "Ma'r ddôr ar agor. Dos i chau hi"
**Ladal.** 'Ladl': llwy ddofn efo coes hir i'w defnyddio wrth goginio. Un dda i godi lobsgows.
**O rwth.** 'oddi wrth' ydy hwn – "O rwth ei gefndar y cafodd o'r car 'na."; "Roedd y ddau gi'n cwffio ac roedd rhaid inni eu tynnu nhw o rwth ei gilydd."; "Mae o wedi tynnu'r peiriant 'na o rwth ei gilydd."
**Gin.** 'gan' ydy hwn. Mae o'n medru golygu 'oddi wrth' yn yr ystyr o dderbyn rhywbeth gan rywun – "Ges i negas e-bost gin Siân." Hefyd, fedr o olygu meddiant a pherchnogaeth – "Mae gin Wil ddigon o bres!"
**Laddar chwys.** Chwysu'n drwm ydy hwn; 'laddar' ydy trochion sebon – "Roedd o'n laddar chwys ar ôl bod wrthi'n galad yn torri'r gwrych."
**Cocoes.** 'Cocos'. Byddai llawer o deuluoedd yr ardal yn arfer mynd i lawr i Draeth Lafan yn Aberogwen i hel cocos efo cribin a bwcad. Mae 'cocos' hefyd yn enw gynnon ni ar ddannedd olwyn ('cogs') mewn peiriant neu ryw fecanwaith arall.
**Affliw.** Y mymryn lleiaf ydy ystyr hwn – "Dw i 'm yn cofio affliw o ddim am y lle roeddan ni'n aros." "Ches i affliw o ddim gynno fo er 'mod i 'di gneud y joban yn iawn."
**Sgrwtj.** Gair arall am sbwriel ydy hwn – "Mae hi'n hen bryd iti gael gwarad ar y sgrwtj 'na."
**Nes at yr achos.** Ystyr hwn ydy mynd yn yn agosach at rywbeth sy'n digwydd neu fynd yn nes at rywun – "Ty'd â dy gadair yn nes at yr achos."
**Ar y naw.** Disgrifiad o berson sydd efallai yn ddigri neu yn bryfoclyd.
**Sefyll yn stond**. Sefyll yn syth heb symud o gwbl

Fyddwch chi yn defnyddio'r geiriau yma, beth am anfon gair> Diolch unwaith eto i Sandra, mae hi mor ffyddlon ei chyfraniadau.

Cofiwch anfon gair at Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

# Corlannau'r Carneddau mewn codau QR





Mae llawer o bobl sy'n cerdded y Carneddau yn dod ar draws corlannau fel Buarthau'r Gyrn, y gorlan fawr sydd wedi'i lleoli ger copa'r mynydd sy'n rhoi ei enw iddi. Mae'r corlannau hyn yn cael eu defnyddio hyd heddiw gan ffermwyr yr ardal ar gyfer didoli diadelloedd ar adegau penodol o'r flwyddyn, fel ym mis Gorffennaf pan fydd y defaid yn cael eu hel yn barod i'w cneifio.

Mae hanes hir i'r corlannau ac mae'n anodd dweud yn union pryd y cawsant eu hadeiladu. Wedi dweud hynny, maen nhw i'w gweld ar fap yn dyddio o 1786 ac mae'n debyg iddyn nhw gael eu hadeiladu rywbryd rhwng 50 a 100 mlynedd cyn hynny. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n hŷn na Phont Menai. Maen nhw'n rhan unigryw o'n tirwedd leol ac yn chwarae rhan bwysig yn hanes diwylliannol yr ardal.

Y llynedd, fel rhan o'r ymdrech i godi ymwybyddiaeth am y corlannu ac i helpu i ddod â'u hanes yn fyw, gosodwyd placiau HistoryPoints ger dwy gorlan yn Llangelynnin ar ochr ddwyreiniol y Carneddau. Ym mis Hydref eleni, gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gosodwyd plac ar ochr y llwybr ger Buarthau'r Gyrn. Ar y placiau hyn mae codau QR y gall trigolion yr ardal ac ymwelwyr eu sganio â'u ffôn symudol i gael mynediad at dudalen ar wefan HistoryPoints sy'n adrodd hanes y safle perthnasol. Maen nhw'n ffordd ddefnyddiol o helpu pobl i ddod i wybod mwy am yr amgylchedd lleol ac mae dros 2000 o blaciau tebyg ledled Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Parc Cenedlaethol, yn ogystal â chynghorau cymuned lleol, wedi bod yn gefnogol iawn i'r prosiect hwn a gobeithir ei ymestyn yn fuan trwy osod placiau ger y pedair corlan fawr yng Nghwm Caseg a Chwm Pen Llafar.

# YSGOL LLANLLECHID






### Pêl-droed merched

Llongyfarchiadau enfawr i dîm pêl-droed merched yr ysgol ar ddod yn bencampwyr cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar ar gaeau pêl-droed Treborth! Dangosodd y merched sgiliau arbennig, ysbryd tîm ac angerdd dros y gêm drwy gydol pob un o'r gemau. Yn ystod y gystadleuaeth, enillodd y tîm bob un o'u gemau ac ildio dim ond un gôl un unig– camp wirioneddol ryfeddol! Roedd y chwaraewyr yn gefnogol iawn i'w gilydd, yn chwarae'n deg ac yn falch o gynrychioli'r ysgol. Diolchwn unwaith eto i'r Urdd am drefnu, ac i'r holl ddyfarnwyr am eu hamser gwirfoddol. Dydd i'w gofio, a llwyddiant arbennig i'r tîm merched dawnus yma! Edrychwn ymlaen at yr Ŵyl Genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mehefin.

### Taith Yr Wyddfa

Ar ddechrau mis Hydref, cafodd ein disgyblion Blwyddyn 6 brofiad bythgofiadwy wrth ddringo copa'r Wyddfa ar hyd llwybr Llanberis. Roedd y disgyblion yn gynrychiolwyr gwych i'r ysgol - yn gwrtais, yn benderfynol ac yn llawn ysbryd tîm. Hoffem ddiolch i staff cwmni Heicio a Beicio Eryri am eu trefniadaeth a'u gofal, ac i'r holl ddisgyblion am eu hagwedd gadarnhaol a'u hegni drwy'r dydd - da iawn chi! Cafwyd seibiau i fwynhau'r golygfeydd godidog dros Eryri, ac roedd pawb yn llawn balchder drwy gydol y daith. Roedd hon yn ddiwrnod i'w gofio - diwrnod o her, llwyddiant ac atgofion melys wrth i'r disgyblion lwyddo i gyrraedd copa Cymru!

### Abergwyngregyn

Mae dosbarth blwyddyn 5 Mrs Owen, dan arweiniad Mr Stephen Jones, wedi bod yn ddigon ffodus i fynd ar daith gerdded hyfryd o Abergwyngregyn yn ôl i'r ysgol, gan ddilyn Llwybr Gogledd Cymru dros y mynydd. Gyda golygfeydd ysblennydd yn y pellter, roedd yn braf cerdded am adref, yn dysgu am ein mynyddoedd a hanes y tirwedd, gan gynnwys diwydiant chwareli Cymru, ar ein ffordd. Roeddent oll wir wedi mwynhau dysgu mwy am eu hardal leol, treulio amser yn yr awyr agored ymhlith byd natur a gwerthfawrogi'r tirwedd anhygoel sydd ar ein stepen ddrws.

### Parc Moch

Cafodd blwyddyn tri a phedwar diwrnod i'w chofio wrth ymweld â Pharc Moch. Dan arweiniad Harri Pickering a Janie Doyle o'r Ysgol Goedwig cawsom ddiwrnod perffaith a pherthnasol wrth ddysgu am goedwig sy'n lleol i ni. Bu'r disgyblion yn casglu dail, creu gwialen allan o frigau a dysgu am blannu mes. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu am goed Prydeinig a sut i greu tan yn ddiogel. Braf oedd cael profiadau gwerth chweil yn ein hamgylchedd lleol.

### Plas Newydd

Cafodd plant Dosbarth Derbyn ddiwrnod gwerth chweil ym Mhlas Newydd, Llanfairpwll wythnos diwethaf.

Cawsom gyfle i greu coron hyfryd o ddail yr hydref a cherdded o amgylch y goedwig wrth gymryd rhan mewn Helfa drysor hydrefol.

Aethom i chwilio am gwiwerod coch ond, yn anffodus roedd pob un yn cuddio y diwrnod hwnnw. Diwrnod llawn hwyl, yn dysgu am nodweddion yr Hydref gan fwynhau a chael hwyl!

### Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch eleni fel cyfle i fynegi ein diolch am y cynhaeaf a'r bendithion rydym yn eu derbyn o ddydd i ddydd. Daeth y disgyblion a'r athrawon ynghyd yn y neuadd ysgol i fwynhau perfformiadau. Cafodd pob dosbarth gyfle i ganu caneuon o fawl gan ddiolch am ein bwyd, am ein byd ac am ein teulu.

Gallwch weld cip o'n gwasanaeth ar Facebook gweler linc: https://www.facebook.com/share/1FzCrVrxdN/ ac ar wefan yr ysgol o dan y teil Newyddion.

### Yasus Afari

Cawsom y fraint o groesawu'r bardd o Jamaica, Yasus Afari, i'n hysgol. Daeth i siarad â'r disgyblion am ddiwylliant a hanes Jamaica, gan rannu straeon am fywyd ar yr ynys a'r traddodiadau sy'n bwysig iddo. Cafodd pawb eu hysbrydoli gan ei bersonoliaeth bywiog a'i neges o gariad, heddwch ac undod. Bu hefyd yn adrodd ei farddoniaeth gyda'i arddull unigryw reggae, gan greu awyrgylch llawn egni a brwdfrydedd. Roedd yn brofiad arbennig i bawb, ac fe wnaeth y plant ddysgu llawer am bwysigrwydd amrywiaeth a mynegiant creadigol.

### Noson Bingo

Cynhaliwyd noson Bingo yn y Clwb Criced yn ddiweddar, ble yr oedd pawb ar binnau yn disgwyl clywed eu rhifau yn cael eu galw. Llongyfarchiadau i'r sawl a enillodd wobr! Hoffai'r ysgol ddiolch i'r Cyfeillion am drefnu noson o hwyl unwaith eto, ac am gasglu £300 tuag at yr ysgol. Cofiwch am ein Ffair Nadolig nesaf ar Dachwedd 27. Dewch yn llu!

### Ymweliad OBR

Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn dysgu am hanes yr ysgol wrth astudio'r thema 'Ydi 'newid' bob amser yn beth da?'. Wrth gwrs felly, maent wedi bod yn dysgu am yr estyniad newydd! Yn ogystal â dysgu am gymhareb wrth gymysgu concrit, cyfrifo arwynebedd a pherimedr yr ystafelloedd newydd a lluniadu wrth raddfa, cawsom ymweliad gan Barry a Gethin o gwmni OBR! Cafodd y dysgwyr gyfle i'w holi ynglŷn â'r defnyddiau a'u defnyddiwyd i adeiladu, yr amserlen, y broses a'r rolau amrywiol o fewn y prosiect! Diolch i Barry a Gethin am ddod i'n gweld, ac am ateb ein holl gwestiynau!

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Adroddiad Cyngor Cymuned Hydref 2025**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar Nos Iau yr 9fed o Hydref yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.

Clywsom gan Y Cyng Rhydian Williams am flwyddyn lwyddianus a gafwyd yn torri gwair y cae pêl-droed yn Nhalybont. Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch i'r holl wirfoddlwyr am eu hamser.

Yn dilyn adborth da gan y gymuned y llynedd, rydym wedi ail-drefnu cael torri'r gordyfiant ochr isaf y fynwent yn Eglwys Llan.

Mae'r Cynghorwyr yn falch o weld fod gratiau mân wedi eu gosod yn Ogwen Bank i atal yr eog rhag cael eu dal yn y mecanwaith.

Edrychwn ymlaen at groesawu Naomi Jones yn ôl i gyfarfod Mis Tachwedd i glywed am ddiweddariadau prosiectau'r Parc Cenedlaethol yn yr ardal.

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod datblygiadau Cae Pêl-droed Talybont yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Iau 20fed o Dachwedd am 7.00 yh. Rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu.

## Capel Carmel

Cynhaliwyd ein gwasanaeth o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf yn ystod mis Hydref. Y plant a'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan ac mi wnaethon nhw eu gwaith yn ardderchog. Roedd y bobl ifanc wedi bod yn addurno'r capel gyda llysiau, ffrwythau, bara a blodau. Roedd y casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Mi gawsom ni ein Te Bach ar brynhawn Llun 13 o fis Hydref. Daeth Llinos Roberts sef gweithwraig gyda Chymorth Cristnogol atom ni i roi sgwrs fer am ei gwaith. Roedd arian o'r Te Bach i'w roi at Gymorth Cristnogol hefyd. Casglwyd £120 yn y Te Bach. Cyfanswm y casgliadau oedd £300. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Mae tair o'r Clwb Gwau heb fod yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae Mrs Glenda Ellis yn Ysbyty Eryri a Mrs Beryl Brown yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Mae Mrs Grace Sewell wedi dod adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion cynnes at y dair gan ddymuno gwellhad buan iddyn nhw.

**Cardiau Nadolig**

Nid yw Glena Bevan Fferm Red Lion am anfon cardiau Nadolig y tymor yma. Mae am ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau, hefyd yn diolch iddynt am eu cymorth a charedigrwydd y misoedd diwethaf ar ôl colli Alwyn. Rhoddir cyfran o'r arian i elusen.

**Capel Carmel**

Trefn Gwasanaethau am 5:00 yr hwyr
Tachwedd 23ain – Eleri Jones
Tachwedd 30ain – Parchedig Dafydd Coetmor Williams
Rhagfyr 7fed – Richard Parry Jones
Rhagfyr 14eg – Gwasanaeth Nadolig
Rhagfyr 21ain – Parchedig R. O. Jones
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener – 6:30
Ysgol Sul – 10:30 y bore
Croeso cynnes i bawb.

Meri Eds, Andre a Gaynor - cyflwynwyr 'Hwyl a Helynt Ffair Llan' yng Nghlwb Hanes Rachub yn ddiweddar.

## Clwb Hanes Rachub

**Hwyl a Helynt Ffair Llan**

Tachwedd 29 – nid yn unig noson cyfarfod Clwb Hanes Rachub oedd hon, ond noson Ffair Llan! Felly doedd dim amdani ond trin a thrafod yr hen ffair, a hynny o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw! Mae Ffair Llan yn hen iawn; mae sôn fod ffair yma ers pan oedd Ieuan Brydydd Hir yn giwrad yn Eglwys Llan - a hynny ym 1766! Yn ôl un awdur, byddai (bryd hynny) bron i bob tŷ yn yr ardal yn dafarndy didrwydded, heblaw am 'drwydded y gangen gelyn uwchben y ddôr.' Byddai'n arferiad rhoi torch o ddail celyn neu eiddew ar ddrws tŷ ar adeg gŵyl, i ddangos fod cwrw ar gael yno, yn ogystal â chroeso bythwyrdd!

Yn y dyddiau a fu, 'doedd rhai pobl ddim yn hapus fod ieuenctid yn mynd i'r ffair - yn enwedig merched; mewn un erthygl, honnir mai lladron a phuteiniaid oedd yn mynychu'r lle! Cawsai cerddorion talentog eu diarddel o gorau am fynd i'r ffair, gan fod yr arferiad yn dod rhyngddynt â'u crefydd!

Bu achos o ddynladdiad yn y ffair ym 1820, pan ymosodwyd yn fileinig ar un o weision Talsarn, nes iddo farw ymhen deuddydd. Tri gŵr lleol oedd y rhai euog a enwyd yn y papur newydd! Mae llawer o hanesion i'w cael am Ffair Llan - gormod i'w rhestru yma, ond gobeithio y bydd cynnwys y cyflwyniad i'w weld ar




ein gwefan yn fuan.

Cyflwynwyd y siaradwyr gan Gwen Ellis, ac arweiniwyd y cyfarfod gan André Lomozik. Darllenwyd nifer helaeth o erthyglau, atgofion, adroddiadau papur newydd, cerddi a chaneuon gan Gaynor Ellis Williams a Mary Jones (Meri Eds) - perfformiadau o'r radd flaenaf! Diolch yn fawr iawn iddynt am gyflwyniad gwerth chweil.

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf – Tachwedd 26 - 'Merched y Ddeiseb Heddwch' gan Angharad Tomos.

# Mynydd Llandygai

**Llwybr Parc y Bwlch wedi'i wella**


Mae'r llwybr ym Mharc y Bwlch, Mynydd Llandygai, bellach yn fwy diogel ac yn haws i'w ddefnyddio, ar ôl cwblhau gwaith gwella a aseswyd yn ddiweddar. Mae'r Cyngor yn falch o'r gwaith, diolch yn fawr iawn i Cyfoeth Naturiol Cymru am eu cydweithrediad.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

**YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE**
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

***Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)***

# CROESAIR



**AR DRAWS**

7 Aderyn ysglyfaethus (4)
8 Cri buddugoliaethus y matador (3)
9 Drwgdybio (4)
10 I gadw trefn ar wario'r amser (6)
11 Rhoi ei ddilledyn yn ôl i'n gwleidydd etholedig iddo fynd i'r Babell Fawr am hwyl (6)
12 Balm iachusol (3)
13 Fel eira glân a gloyw, yn hollol ddilychwin (6)
14 Nifer dy ddyddiau (6)
16 Llwybr gwlyb cyntaf y Mimosa i'r Wladfa yn 1865 (6)
19 Cofleidio (6)
21 Heb fod yn teimlo'n dda (3)
22 Geiriau'r ddrama i'w dysgu ar go' (6)
24 Difetha a sbwylio (6)
25 "Bydd yn - - - -, paid â llithro, er mor dywyll yw y daith" (4)
26 Edrycha ! Sbïa yn dafodieithol (3)
27 Fel 16 Ar Draws (4)

**I LAWR**

1 Trowsus hen ffasiwn (6)
2 Dau a dau a bachyn i nefolaidd le (8)
3 Darn o aur i'w wario (6)
4 Dychwelyd i drïo cael arian o'i siec (6)
5 Goleiath neu Ysbaddaden (4)
6 Pentref ac un o blwyfi hynafol Sir Fflint (6)
15 Ymadrodd neu ddihareb (8)
17 Ysgerbwd (6)
18 Wyt syth weithiau, ond hyblyg iawn dro arall (6)
19 Cymeriad pantomeim a'i lamp hud (6)
20 Mae yn dusw yn ôl rhai, yn bersain a soniarus (6)
23 Bardd coch Glyndŵr (4)

Atebion erbyn **5ed Rhagfyr 2025** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



**ATEBION CROESAIR HYDREF 2025**

**AR DRAWS** 1 Parhad, 5 Ebill, 9 Ceffylau, 10 Lafant, 11 Anerchiad, 12 I'w Gadw, 15 Estron, 18 Igam-ogam, 20 Closio, 22 Neithiwr, 23 Gafr, 24 Legins

**I LAWR** 2 Amcanu, 3 Hyfforddwr, 4 'Dal Fi', 6 Bref, 7 Llofnod, 8 Culdir, 13 Gŵr Oriog, 14 Unioni, 16 Selsig, 17 Lladron, 19 Anial, 21 Saif

Y gwallau ddaeth i'r wyneb y tro yma oedd 'ei gadw' yn lle 'i'w gadw' (12 Ar Draws), 'culder' yn lle 'culdir' (8 I Lawr), a 'seif' yn hytrach na'r ateb cywir 'saif' (21 I Lawr)

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion hollol gywir: Gill King, Mynydd Llandygai; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth; Elsi Prytherch, Bangor; Stella Dafis, Rachub; Huw a Gwenno, Gerlan; Judith Hughes, Llangoed; Wendy Eccles, Llanllechid; Doris Shaw, Margaret Williams, Ann Morris, Rita Bullock, Emyr Roberts, Bethesda; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Jones, Talybont.

Yr un ddaeth i'r brig am y clod a'r wobr y mis hwn oedd cynnig Emyr Roberts, Bethesda.


**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com